Yn ystod 2016 -2017, cynhaliwyd pum cyfarfod rheolaidd y Bwrdd ac un cyfarfod arbennig. O gyfanswm posibl o 66 cyfle i aelodau fod yn bresennol, cafwyd 57. Mae'r Bwrdd o'r farn bod y wybodaeth a'r data a roddwyd gan y Tîm Gweithredol yn ddigonol iddo gyflawni ei chyfrifoldebau. Cyhoeddir cofnodion y Bwrdd ar wefan y Llyfrgell.

## 1.8 Is bwyllgorau

Mae gan y Bwrdd dri phwyllgor sefydlog: y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad a'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol. Cafodd yr olaf ei sefydlu yn bwyllgor sefydlog gan y Bwrdd yn Nhachwedd 2016.

Diffinnir cwmpas y tri Pwyllgor yn eu Cylch Gorchwyl.

1.8.1 Mae sgôp y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cwmpasu holl anghenion sicrwydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae hefyd yn ymwneud â gwaith yr Archwilydd Mewnol a'r Archwilydd Allanol a materion yn ymwneud ag adroddiadau ariannol. Cyfarfu'r Pwyllgor hwn bedair gwaith rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys tri aelod o'r Bwrdd ar hyn o bryd a dau aelod annibynnol allanol. Yr aelodau presennol yw: Huw Williams (Cadeirydd ac Ymddiriedolwr); Phil Cooper (Ymddiriedolwr); Dyfrig Davies (Aelod Annibynnol); Kirsty Jenkins (Aelod Annibynnol). Mae Trysorydd y Llyfrgell, Colin R. John, yn aelod *ex officio* o'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae swydd wag ar gyfer un aelod o'r Ymddiriedolwyr ar hyn o bryd. Mae archwilwyr mewnol y Llyfrgell, RSM, a chynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. Mae isadran nawdd y Llyfrgell, MALD, yn cadw'r hawl i gynrychiolydd fynd i un cyfarfod y flwyddyn.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn derbyn copïau o'r holl adroddiadau archwilio mewnol i'w hystyried ac yn monitro pa mor ddigonol yw ymatebion y rheolwyr i'r argymhellion hynny sy'n mynd i'r afael ag unrhyw risgiau a gwendidau o ran rheolaeth fewnol. Cyflwynir cofnodion pob cyfarfod i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr gan Gadeirydd y Pwyllgor.

1.8.2 Mae sgôp y Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad yn cwmpasu holl anghenion monitro llywodraethiant a pherfformiad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Tim Gweithredol. Cyfarfu'r pwyllgor dair gwaith yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2016 - 31 Mawrth 2017, a chynhaliwyd un cyfarfod atodol ym mis Tachwedd 2016.

Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad yw: Dr. Susan J. Davies (Cadeirydd), D. Hugh Thomas, Elizabeth Siberry, Dyfrig Jones ac Iwan Davies - y mae pob un ohonynt yn Ymddiriedolwyr y Llyfrgell. Cyflwynir cofnodion pob cyfarfod i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr gan Gadeirydd y Pwyllgor.

Y Pwyllgor hwn sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu gweithredu adolygiad llywodraethiant Swyddfa Archwilio Cymru (2016) ac adrodd ar gynnydd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ei adolygiad llywodraethiant, *Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Adolygiad Llywodraethu* ar 5 Rhagfyr 2016. Gwnaeth y Llyfrgell ymateb trwy baratoi cynllun gweithredu yn amlinellu sut y byddai'n mynd i'r afael â gweithredu'r argymhellion, fydd wedi ei gwblhau erbyn Medi 2017.

1.8.3 Mae sgôp y Pwyllgor Cynllunio Ariannol yn cwmpasu anghenion adolygu a monitro ariannol y Llyfrgell. Fe'i sefydlwyd yn Nhachwedd 2016 ac fe gyfarfu dwywaith yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2017.

Yr aelodau presennol yw: Colin R. John (Cadeirydd), Phil Cooper, Hugh Thomas a Huw Williams - y mae pob un ohonynt yn Ymddiriedolwyr y Llyfrgell. Mae un lle gwag ar gyfer Ymddiriedolwr ar hyn o bryd. Cyflwynir cofnodion pob cyfarfod i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr gan Gadeirydd y Pwyllgor.

### 1.9 Archwilio mewnol

Cynhelir yr archwiliad mewnol ar gyfer y Llyfrgell gan RSM a fydd yn cydymffurfio â'r safonau a ddiffinnir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Byddant yn adrodd yn annibynnol bob blwyddyn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y Llyfrgell, ac yn cyflwyno argymhellion ar gyfer gwella. Mae'r Adroddiadau Cynnydd rheolaidd mewn perthynas ag Archwilio Mewnol sy'n cael eu llunio gan Archwilwyr Mewnol y Llyfrgell yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg i alluogi'r aelodau i adolygu a herio datganiadau sicrwydd a thystiolaeth arall a ddarperir gan reolwyr. Cynhaliwyd proses caffael ar gyfer archwiliad mewnol yng Ngorffennaf 2016 a dyfarnwyd y cytundeb i RSM am gyfnod pellach o dair blynedd.

### 1.10 Cód Ymarfer Gorau ar Lywodraethiant Corfforaethol

Hyd y gwyr y Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Llyfrgell yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi'u cymryd i sicrhau eu bod yn gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr y Llyfrgell yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Mae'r Llyfrgell wedi gweithredu'n unol â'r *Côd Llywodraethiant Da: Côt ar gyfer y Trydydd Sector yng Nghymru* a bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi sicrhau, unwaith eto yn unol â'r cod ymarfer penodol hwn, fod gan y Llyfrgell drefniadau llywodraethiant cadarn ar waith i hyrwyddo perfformiad uchel a diogelu priodoldeb a rheoleiddra.

A hithau'n Elusen Gofrestredig, mae'r Llyfrgell nid yn unig wedi gweithredu'n unol â chôtiau ymarfer a chanllawiau'r Comisiwn Elusennau, sef *Nodweddion Elusen Effeithiol*, a'r *Ymddiriedolwr Hanfodol*, mae hefyd wedi sicrhau bod ein Hymddiriedolwyr yn gwybod am y canllawiau pwysig hyn.

### 1.11 Rheoli Risg

Mae system rheolaeth fewnol y Llyfrgell fel y'i disgrifir yn ei *Fframwaith Sicrwydd yng nghyswllt Rheoli Risg* yn seiliedig ar broses barhaus o nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni ei Chynllun Gweithredol blynyddol a'i Strategaeth, ac i werthuso'r tebygolrwydd o'r risgiau hynny'n digwydd a'r effaith potensial pe baent yn digwydd; a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Mae'r gofrestr risgiau corfforaethol wedi nodi, cofnodi, asesu ac ystyried y risgiau strategol a gweithredol allweddol sy'n berthnasol i weithgareddau'r Llyfrgell. Ystyriwyd y rhain gan y Tîm Gweithredol hefyd a chymerwyd camau i'w rheoli'n briodol. Defnyddiodd y Llyfrgell y system Briff Craidd (dull o roi negeseuon corfforaethol pwysig i staff) i hysbysu'r



staff am eu dyletswyddau mewn perthynas â rheoli risg, a'u hannog i gyfrannu at y broses.

Caiff cofrestr risgiau corfforaethol y Llyfrgell ei hadolygu a'i diweddarau ddwywaith y flwyddyn. Caiff y risgiau a nodwyd eu cynnwys yn y gofrestr risgiau a'u hasesu o ran a ydynt yn peri risg strategol, gweithredol, ariannol neu risg o ran cydymffurfiaeth. Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli risgiau wedi'u cymeradwyo ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Risg, yr archwilwyr mewnol, y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd a Phenaethiaid y Cyfarwyddiaethau a'u staff. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael adroddiadau ysgrifenedig hefyd ddwywaith y flwyddyn ar unrhyw ddiweddariad i'r gofrestr risgiau.

Mae'r Llyfrgell yn rheoli risg mewn modd gofalus o hyd o ran ei chyfrifoldebau fel corff cenedlaethol diwylliannol a threftadaeth. Y risg fwyaf sylweddol i'r Llyfrgell yn y dyfodol yw'r posibilrwydd o ostyngiadau pellach yn y Cymorth Grant oddi wrth Lywodraeth Cymru oherwydd pwysau yn y dyfodol ar wariant cyhoeddus y DU, i lefel lle na fydd y Llyfrgell yn gallu cyflawni ei swyddogaethau a'i hamcanion craidd.

Mae'r Llyfrgell wedi rhoi polisiau a gweithdrefnau ar waith sy'n sicrhau ei bod yn cydymffurfio â gofynion Deddf Diogelu Data 1998. Ni chafwyd unrhyw enghreifftiau o fethu â chydymffurfio â gofynion y Ddeddf yma. Mae newidiadau arfaethedig posibl i Ddiogeledd Data hefyd yn cael eu monitro.



Linda Tomos  
Prif Weithredwr, Llyfrgellydd a'r Swyddog Cyfrifyddu  
21 Gorffennaf 2017

Llofnodwyd ar ran y Bwrdd gan:



Colin R John  
Trysorydd  
21 Gorffennaf 2017

## 2 AMCANION A GWEITHGAREDDAU

### 2.1 Prif amcanion

Prif amcan y Llyfrgell, fel y mynegwyd yn Siarter Atodol 2006, yw:

- *casglu, diogelu a rhoi mynediad i bob math a ffurf ar wybodaeth gofnodedig, yn enwedig mewn perthynas â Chymru, y Cymry a phobloedd Celtaidd eraill, er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymroi i ymchwil a dysg.*

Y pwrpas a gweledigaeth sylfaenol oedd sicrhau bod hanes, diwylliant a threftadaeth unigryw Cymru, sydd wedi'i ddogfennu mewn ffurfiau a chyfryngau amrywiol dros y blynyddoedd, ar gael bob amser i alluogi pawb i gael gwell dealltwriaeth o bwy ydym, i esbonio'r etifeddiaeth hanesyddol a diwylliannol sydd wedi ein ffurfio ni fel cenedl dros y canrifoedd, ac i ysgogi dysg ac ymchwil. Mae iddi ddau ddimensiwn - adeilad ffisegol ysbennnydd, yn Aberystwyth sy'n gartref i gasgliadau print, llawysgrifol, gweledol a sainweledol ac yn llyfrgell, archifdy a phresenoldeb digidol ar y rhyngwrwyd.

### 2.2 Budd i'r Cyhoedd

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 2 o Ddeddf Elusennau 2011 i roi sylw dyladwy i'r canllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau ar y budd i'r cyhoedd. Er mai'r prif fuddiolwyr yw'r bobl sy'n byw yng Nghymru, mae gwaith y Llyfrgell yn rhoi budd bydeang i ymwelwyr a defnyddwyr ar-lein.

### 2.3 Prif Weithgareddau

Dyma ein prif weithgareddau:-

#### 2.2.1. *Casglu:*

*Casglu deunyddiau drwy adneuo cyfreithiol, pryniannau, rhoddion, cymynroddion, cyfnewid, ac adneuo, yn unol â pholisïau datblygu casgliadau y cytunwyd arnynt.*

Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- lunio casgliad mor gyflawn â phosib o ddeunydd cyhoeddedig yn ymwneud â Chymru (a gwledydd Celtaidd eraill i raddau llai helaeth), ym mhob cyfrwng, yn cynnwys cyhoeddiadau electronig ac wedi'u hargraffu a deunydd sain/delweddau symudol;
- cynnal a chadw (yn bennaf drwy adneuo cyfreithiol a phryniannau) y casgliad mwyaf cynhwysfawr yng Nghymru o ddeunyddiau wedi'u hargraffu a gyhoeddwyd yn y DU, ac Iwerddon, a deunydd ymchwil o wledydd eraill;
- datblygu casgliadau o ddeunyddiau heb eu cyhoeddi yn ymwneud â Chymru neu'n deillio o Gymru, yn cynnwys archifau a gwaith artistig;
- cael mynediad i ddeunydd a gaffaelwyd, ei brosesu, ei gatalogio a'i storio yn y ffordd fwyaf effeithlon.

#### 2.2.2. *Cadw a Diogelu:*

*Cadw a diogelu'r casgliadau.* Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- sicrhau bod amodau o ran yr amgylchedd, storio a thrin a thrafod yn briodol ar gyfer diogelu'r casgliadau yn barhaus;
- ymyrryd er mwyn cadw'r deunyddiau i'w hatal rhag dirywio neu atgyweirio'r difrod;

- trosglwyddo gwybodaeth i fformatau cadw mwy addas.

### **2.2.3. Darparu mynediad a gwybodaeth:**

*Darparu mynediad cyhoeddus addas/effeithiol i adeilad, casgliadau a gwasanaethau'r Llyfrgell, a gwybodaeth amdanynt.* Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- fonitro a dadansoddi anghenion y defnyddiwr;
- darparu mynediad i fannau, casgliadau a chyfleusterau cyhoeddus yn yr adeilad;
- trefnu mynediad i eitemau o gasgliadau a gwasanaethau gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr ar y safle neu drwy gyfathrebu ar-lein ar gyfer defnyddwyr o bell;
- darparu mynediad hawdd i gatalogau o gasgliadau ac adnoddau electronig y Llyfrgell ac i'w fersiynau digidol cyfatebol.

### **2.2.4 Rhoi cyhoeddusrwydd a dehongli:**

*Codi ymwybyddiaeth o waith a chasgliadau'r Llyfrgell a lleadaenu gwybodaeth amdanynt.* Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- ddeunyddiau ar wefan y Llyfrgell;
- canllawiau a deunydd cyhoeddusrwydd ar bapur ac ar-lein;
- arddangosfeydd a gweithgareddau cymunedol/addysgol sy'n deillio o'r casgliadau, yn y Llyfrgell ac mewn lleoliadau eraill ledled Cymru;
- digwyddiadau, darlithoedd a seminarau.

### **2.2.5 Cydweithio proffesiynol:**

*Cydweithio â grwpiau proffesiynol cysylltiedig, ac weithiau eu harwain, ledled Cymru a thu hwnt.*

Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- weithredu fel canolbwynt ar gyfer cyrff archifau a llyfrgelloedd yng Nghymru;
- gweithio gyda chyrff yng Nghymru a thu hwnt i gyflawni mentrau a phartneriaethau cydweithredol yn y sectorau gwybodaeth, diwylliant a threftadaeth eang, a datblygu ymarfer proffesiynol.

### **Swyddogaethau cefnogi:**

Caiff y *swyddogaethau craidd* eu cefnogi gan swyddogaethau rheoli a busnes hanfodol, yn cynnwys: rheoli a datblygu staff; rheoli a bod yn atebol am adnoddau ariannol a chynhyrchu incwm; a chynnal a chadw a datblygu seilwaith TGCh ac adeilad a chyfleusterau'r Llyfrgell.

Dyma'r prif weithgareddau a gynhaliwyd i hyrwyddo dibenion yr elusen er budd y cyhoedd yng Nghymru.

Mae'r Llyfrgell yn cyflwyno Cynllun Gweithredol Blynyddol i Lywodraeth Cymru ar sut y caiff y gweithgareddau eu cynnal a thargedau yn erbyn y gweithgareddau hyn. Mae rhagor o fanylion am sut cafodd y strategaeth hon ei llunio a'i chyflawni wedi'u cynnwys yn adran 7.

### 3. CYFLAWNIAD A PHERFFORMIAD

Cred y Llyfrgell eu bod wedi cyflawni'r prif nodau ar gyfer 2016/17 ac mae uchafbwyntiau'r flwyddyn fel a ganlyn: -

#### 3.1 Prif uchafbwyntiau yn 2016/17

##### 3.1.1 Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHB)

Ym mis Mai 2016, cyd-leolwyd y Comisiwn Brenhinol yn y Llyfrgell Genedlaethol. Yn dilyn gwaith o addasu'r adeiladu ar gyfer y datblygiad mae'r Comisiwn erbyn hyn yn storio'i casgliad o fewn yr adeilad ac y mae ganddynt ystafell ddarllen ganolog ynghyd â swyddfeydd addas. Bu'r datblygiad hwn yn gyfrwng i gadarnhau a datblygu'r berthynas ragorol rhwng y ddau gorff.

##### 3.1.2 Archif Ddarlledu Genedlaethol

Ym mis Mawrth 2017, fe'n hysbyswyd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri fod ein cais am £4.9m wedi llwyddo ac wedi pasio'r cam cyntaf. Mae hwn yn brosiect £8m i roi cartref i archif BBC Cymru Wales, a darparu mynediad eang i gasgliadau'r BBC drwy bedwar hwb digidol wedi'i lleoli yn Aberystwyth, Caerfyrddin, Caerdydd a Wrecsam, ac i raddau llai arlein. Mae'r Llyfrgell nawr yn datblygu cais ar gyfer yr ail gam a'r bwriad fydd ei gyflwyno ym mis Mehefin 2018.

##### 3.1.3 Cynefin

Bu prosiect Cynefin yn llwyddiannus yn digido, geo-gyfeirio a thrawsgrifio 100% o'r mapiau degwm yng Nghymru. Bydd y prosiect yn gorffen ar y 30ain o Fehefin 2017 gyda grant o £573,909 wedi ei ddarparu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri a Llywodraeth Cymru. Cafodd y prosiect yma ei arwain gan Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru (ARCW) ac mae'n cynnwys fel partneriaid Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Casgliad y Werin Cymru, archifdai lleol ledled Cymru ynghyd â chymunedau a gwirfoddolwyr unigol. Bydd y mapiau degwm ar gael ar-lein ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

##### 3.1.4 Cymru'n Cofio: Gweithgaredd cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf

Mae'r Llyfrgell wedi gweithio yn agos gyda Llywodraeth Cymru ar gyflwyno rhaglen o weithgaredd sydd yn cofio'r rhyfel sydd yn cynnwys: -

- Datblygu app ar gyfer dyfeisiau symudol/llachen yn dangos lleoliad cofgolofnau a beddau rhyfel. Datblygodd Cymru yn y Rhyfel weithgareddau cynhwysol i blant ysgol ledled Cymru a fydd yn eu galluogi i ddatblygu bywgraffiadau o'r enwau ar gofgolofnau rhyfel Cymru. Gweithiwyd mewn partneriaeth â chynrychiolwyr o'r lluoedd arfog, ac addysgwyr ac ysgolion yng Nghymru. Cyllidwyd y prosiect gan Gronfa Gyfamod y Lluoedd Arfog, Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru.
- Gwelodd 2016/17 gyflawniad Prosiect Addysg y Rhyfel Byd Cyntaf, ar y cyd ag Amgueddfa Cymru. Roedd yr allbynnau yn cynnwys creu adnoddau trawsgwricwlaidd dwyieithog, ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd. Y bwriad yw iddynt gefnogi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r cwricwlwm yng Nghymru, ac maent ar gael drwy Hwb, Gwefan Addysg y Llyfrgell Genedlaethol, a gwefan Casgliad y Werin Cymru. Mae'r fformatau'n cynnwys iBooks, taflenni gwaith PDF, cynlluniau gwersi, clipiau o ffilmiau, eitemau unigol gyda dehongliadau a gwersi NearPod rhyngweithiol. Ariannwyd y prosiect gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru.
- Arddangosfa Mametz gan Aled Rhys Hughes a David Jones rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2016.

- Rhaglen o ddigwyddiadau cofio gan gynnwys stondin Heddwch ac Ewyllys Da yn Eisteddfod yr Urdd, a darlithoedd awr ginio.

### 3.1.5 Prosiect Datgloi Treftadaeth Ffilm (BFI)

Mae'r Llyfrgell yn bartner allweddol ym mhrosiect y BFI Datgloi Treftadaeth Ffilm. Mae'r prosiect yn anelu at sicrhau y bydd treftadaeth ffilm ar gael i bawb yn y DU ei fwynhau drwy fuddsoddi mewn digido, diogelu, dehongli a mynediad gyda'r nod yn y pendraw o sicrhau bod holl dreftadaeth ffilm y DU ar y sgrin ar gael i'r cyhoedd yn ddigidol. Cyflawnodd y Llyfrgell Rhan 3 o'r Prosiect ac rydym yn aros am gadarnhad ynglŷn â chyllid Rhan 4 yn 2017/18.

### 3.1.6 Presenoldeb yn Sir Benfro

Mae gwaith wedi dechrau ar Lyfrgell ac Amgueddfa newydd Hwlfordd, ac rydym yn cydweithio gyda Cyngor Sir Benfro i ddarparu'r arddangosfa ar gyfer yr oriel newydd. Roeddem yn hynod o ddiolchgar i Sefydliad Foyle am eu cyfraniad o £50,000 tuag at y gost o ddodrefnu'r oriel. Dylai'r adeilad fod yn barod erbyn Gwanwyn 2018.

### 3.1.7 Mynediad i ddeunydd Adnau Cyfreithiol Electronig

Yn Hydref 2016, sefydlodd y Llyfrgell ei bwynt mynediad cyntaf i adnau cyfreithiol electronig tu allan i Aberystwyth, a hynny ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r pwynt mynediad yn agored nid yn unig i fyfyrwyr a staff y Brifysgol, ond hefyd i'r cyhoedd.

## 3.2. Dangosyddion Cyflawni Allweddol

Adroddwyd ar berfformiad y Llyfrgell yn erbyn ei thargedau i Llywodraeth Cymru yn 2016/17 fel a ganlyn:

		Targed	Cyrhaeddiad
1	Nifer y defnyddwyr rhwydwaith o bell yn ystod y flwyddyn	1,500,000	1,459,805
2	Nifer yr ymwelwyr	87,000	75,208
3	Nifer y cyfranogwyr yng ngweithgareddau'r Llyfrgell	16,000	16,920
4	Bodddhad ymwelwyr (ffisegol); da/da iawn	98%	92%
5	Bodddhad ymwelwyr( rhithiol) da/ da iawn	60%	68%
6	Y defnydd o'r ystafelloedd darllen	25,000	18,512
7	Nifer o wirfoddolwyr	700	1,032

Mae perfformiad yn erbyn targedau yn cael eu adolygu gyda Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd gyda nodiadau a dehongliadau'n cael eu darparu am ein cyflawniad yn erbyn y targed.

Rydym yn ymrwymedig i fonitro'n barhaus a gwerthuso ein gwaith mewn ffyrdd meintiol ac ansoddol. Er bod ein dangosyddion cyflawni meintiol yn rhoi ciplun ar berfformiad, mae'r data ansoddol o astudiaethau achos ac adroddiadau naratif yn parhau i roi ciplun manylach, a chyfle i fyfyrto ar ein gwaith a'i gyfoethogi.

## 4 ADOLYGIAD ARIANNOL

### 4.1 Canlyniadau a Dyraniadau Arian

Paratwir y cyfrifon dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992 ar ffurf a bennir gan weinidogion Llywodraeth Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Roedd yr adnoddau net a wariwyd gan y Llyfrgell am y flwyddyn ariannol yn £360k (2015/16: derbyniwyd £17k). Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniodd y Llyfrgell oedd £12.255m (2015/16 £13.451m) a chyfanswm yr adnoddau a wariwyd oedd £12.615m (2015/16 £13.434m).

Cynyddodd y gronfa gyhoeddus anghyfyngedig o £109k i £110k felly cafwyd blwyddyn o dorri yn hafal. Cafodd hyn ei gyflawni drwy reoli costau, ond mae lefelau'r gronfa anghyfyngedig cyhoeddus mor isel, fel na ellir cynnal colled pellach yn y dyfodol a hyn yn rhannol o ganlyniad i reolau Llywodraeth Cymru ynglŷn a chario arian ymlaen a'r lefel o arian sydd yn cael ei ganiatáu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Roedd balansau'r cronfeydd ar 31 Mawrth 2017 yn £83.0m (31 Mawrth 2016 £91.04m).

### 4.2 Datganiad o'r Arferion a Argymhellir ar gyfer Elusennau

Cyhoeddodd y Comisiwn Elusennau Ddatganiad o'r Arferion a Argymhellir (SORP) ar gyfer elusennau ym mis Hydref 1995 a ddiweddarwyd yn fwyaf diweddar gan SORP Elusennau 2015. Mae'r Llyfrgell wedi cydymffurfio â'r SORP ers cyfrifon 1996/97.

### 4.3 Priso'r Asedau Sefydlog Diriaethol

Comisiynodd y Llyfrgell y Syrffewyr Siartredig, Cooke ac Arkwright i gynnal ailbrisiad o adeiladau a thir rhydd-ddaliad y Llyfrgell fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2017. Dangosir tir ac asedau sefydlog diriaethol eraill naill ai yn ôl gwerth y defnydd presennol ohonynt neu gost amnewid dibrisiedig. Addasir gwerthoedd yn flynyddol fel arfer drwy fynegeio rhwng pob prisiad ffurfiol sy'n digwydd bob pum mlynedd.

### 4.4 Polisi Talu Credydwy

Mae gan y Llyfrgell drefn fonitro i fesur perfformiad y Llyfrgell yn seiliedig ar y "Cod Trefn Talu'n Well" a chymerir sampl o anfonebau sydd wedi'u talu i asesu perfformiad. Yn ystod 2016/17 talwyd 100% o'r anfonebau a dderbyniwyd cyn pen 30 diwrnod (2015/16 – 99.8%). Cafodd 88.8% o'r anfonebau eu talu o fewn 15 diwrnod o'u derbyn.

### 4.5 Polisi Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau

Yn unol â SORP Elusennau 2015, rhaid i'r Llyfrgell ddatgelu ei pholisi ar Gronfeydd Wrth Gefn Elusennau.

#### 4.5.1 Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn dibynnu ar hyn o bryd ar Lywodraeth Cymru i gynnal y rhan fwyaf o'i gweithgareddau. Polisi cronfeydd wrth gefn Cronfeydd Cyhoeddus y Llyfrgell yw cydymffurfio â gofynion Dogfen Eframwaith Llywodraeth Cymru sy'n gosod allan y fframwaith

ariannol y mae gofyn i'r Llyfrgell weithio iddi. Prif ofyniad y Ddogfen Fframwaith mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn yw mai dim ond 2% o'r Cymorth Grant gros y gellir ei gadw fel balansau arian parod. Mae'r gofyniad hwn yn arbennig o anodd yn yr oes o ansicrwydd ariannol sydd ohoni a byddai lliniaru'r risgiau yn cyfiawnhau cadw symiau uwch o gronfeydd wrth gefn o ystyried y rhagolwg ariannol. Felly mae'r Llyfrgell yn agored i lefel uchel o risg ariannol ac nid yw gofynion Llywodraeth Cymru yn helpu i hyrwyddo dulliau rheoli risg a rheoli ariannol da mewn perthynas â lefel y cronfeydd wrth gefn a gedwir.

#### 4.5.2 Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig

Mae'r cronfeydd cyhoeddus cyfyngedig yn cynrychioli Grantiau Prynu a Chyfalaf a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru neu unrhyw grantiau a dderbynnir gan gorff cyhoeddus at ddibenion penodol. Mae'r arian hwn hefyd yn gyfyngedig i 2% o Gymorth Grant gros i'w gario drosodd mewn balansau arian parod.

#### 4.5.3 Cronfeydd Preifat Anghyfyngedig

Mae gan gronfeydd preifat anghyfyngedig y Llyfrgell dri phrif amcan:

- Cyfrannu at gostau refeniw rhedeg gwasanaethau'r Llyfrgell;
- Ychwanegu at Grant Pwrcasu'r Llyfrgell i'w galluogi i gyflawni ei pholisi casgliadau;
- Cyllido buddsoddiad cyfalaf neu ddatblygiadau yn y dyfodol yn cynnwys cyfarpar, adeiladau a meddalwedd a chaledwedd cyfrifiadurol.

Ar 31 Mawrth 2017:

- Roedd £2m wedi'i glustnodi'n dybiannol ar gyfer darparu arian cyfatebol i brosiect Archif Ddarlledu cenedlaethol, lle mae Rhan 1 wedi bod yn llwyddiannus ac fe fyddwn yn cyflwyno cais Rhan 2 ym Mehefin 2018.
- £200K y flwyddyn wedi'i glustnodi fel cyfraniad tuag at y diffyg yng nghyllideb costau cyfalaf y Llyfrgell; yn rhannol i gefnogi'r toriad yn y Grant Pwrcasu i £200K ac yn rhannol i ariannu gofynion Technoleg Gwybodaeth;
- Mae'r Bwrdd wedi cytuno i ariannu £50,000 tuag at y Bywgraffiadur arlein. Mae hwn yn brosiect ar y cyd rhwng y Llyfrgell a'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd;
- Mae'r Bwrdd wedi cytuno i ariannu £240,000 (£80,000 y flwyddyn am 3 mlynedd) tuag at gatalogio a hyrwyddo casgliad cerddoriaeth werin – yn arbennig casgliad Meredudd Evans.
- Mae'r Llyfrgell yn datblygu perthynas gyda nifer o sefydliadau addysg uwch gyda'r bwriad o ddatblygu partneriaethau ar y cyd yn y dyfodol. Byddant yn cael eu hariannu o'r gronfa breifat.

Mae gwerth cronfeydd elusennol anghyfyngedig y Llyfrgell yn debygol o ostwng felly dros y cyfnod hyd at 2021. Mae'r Bwrdd yn adolygu a monitro lefel y cronfeydd wrth gefn drwy'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol.

#### 4.5.4 Cronfeydd Preifat Cyfyngedig

Gellir ond defnyddio cronfeydd cyfyngedig preifat y Llyfrgell yn unol â thelerau datganedig y cymynroddion. Dim ond at y dibenion a ddisgrifir ar gyfer pob cronfa y gellir eu defnyddio ac felly dim ond pan fydd eitem gwariant sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gronfa yn cael ei chymeradwyo gan y Bwrdd y cânt eu defnyddio. Mewn ymgynghoriad â'n cyfreithwyr a'r Comisiwn Elusennau, mae cronfa D M Phillips bellach wedi cael ei symud o fod yn gronfa

gyfyngedig i gronfa anghyfyngedig, yn dilyn adolygu'r gwaith papur gwreiddiol oedd yn dangos nad oedd unrhyw delerau cyfyngedig wedi eu nodi.

#### 4.6 Polisi Buddsoddi

Yn 2016/17, adolygwyd polisi buddsoddi'r Llyfrgell a gosodwyd meincnod newydd. Mae'r portffolio wedi ei fuddsoddi mewn ecwitiau a bondiau. Mae'r swm y gellir ei fuddsoddi mewn categorïau asedau gwahanol wedi'i bennu yn unol ag asesiad risg. Ystyrir bod agwedd y Llyfrgell at risg yn un "canolig", gan dderbyn y bydd rhaid, os am gael enillion uwch na gosod yr arian mewn cyfrif cadw, dderbyn risg fydd yn deillio o fuddsoddi mewn bondiau ac ecwitiau

Mae'r Bwrdd yn adolygu'r Polisi a Strategaeth Buddsoddi yn flynyddol, sy'n cynnwys ystyried buddsoddiadau cymdeithasol, amgylcheddol neu foesebol.

Mae'r Llyfrgell wedi penodi rheolwyr buddsoddi, Investec Wealth & Investment, sy'n gyfrifol am fuddsoddi'r portffolio cronfeydd preifat. Mae meincnod wedi'i osod i'r rheolwyr ar gyfer perfformiad y portffolio buddsoddi, ac yn 2016/17, sicrhawyd enillion o 17.49% yn erbyn meincnod o 17.68% (2015/16: -3.02% yn erbyn meincnod o -3.49%).

Rheolwyd y buddsoddiadau ar sail ddewisol yn unol â gofynion Deddf Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr 1961 ac yn fwy diweddar, Deddf Ymddiriedolwyr 2000. Caiff perfformiad y portffolios ei fonitro a'i gyflwyno ar ffurf adroddiad yn rheolaidd i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol a'r Ymddiriedolwyr. Ar 31 Mawrth 2017, gwerth yr arian parod a'r buddsoddiadau yn y farchnad oedd £10.06m (£8.67m ar 31 Mawrth 2016).

#### 4.7 Prif risgiau ac ansicrwydd

##### 4.7.1 Ansicrwydd ariannol

Er fod y grant craidd wedi cynyddu 3.5% yn y tymor byr yn 2017-18, mae'r Bwrdd a'r rheolwyr yn parhau i bryderu am y lleihad sylweddol yng ngrant y Llyfrgell gan Lywodraeth Cymru. Gwelwyd toriad o 4.7% yn y grant refeniw craidd yn 2016/17, a bygythiadau i'r grant cyfalaf a'r grant pwrcasu.

Er bod modd ariannu'r diffyg o'r gronfa breifat anghyfyngedig yn y byr dymor, gall fod angen ad-drefnu pellach i greu arbedion yn yr hirdymor, ac mae'r Bwrdd yn poeni na fydd y Llyfrgell yn gallu cyflawni ei hamcanion yn y dyfodol os bydd toriadau i'r gyllideb yn parhau.

##### 4.7.2 Cynllun Pensiwn

Cafwyd gwerthusiad actiwaraid o'r cynllun ar y 31<sup>ain</sup> o Fawrth 2016, oedd yn dangos colled hanesyddol i'r cynllun o £370K a bydd rhaid i hyn gael ei ariannu gan y cyflogwr, yn ogystal a'r cynnydd angenrheidiol yn y raddfa cyfraniadau. Mae'r Llyfrgell mewn trafodaethau gyda'r staff a chynrychiolwyr yr undebau ynglŷn â newidiadau eraill sydd yn angenrheidiol i'r cynllun, ond mae cost y cynllun pensiwn, a'r risg o ymrwmiadau i'r dyfodol yn parhau yn risg allweddol.



## 5 ADRODDIAD CYNALIADWYEDD

Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â'r canllawiau a gyflwynwyd gan Drysorlys EM yn *Public Sector Annual Reports: Sustainability Reporting Guidance*. Yn ystod 2016-17, cyflawnwyd y canlynol: -

	2016-17	2015-16	2014-15
<b>Y defnydd o ddŵr</b>			
Y defnydd o ddŵr m <sup>3</sup>	10,523	9,842	7,698
Y defnydd o ddŵr m <sup>3</sup> fesul WTE*	40.26	41.52	27.69
Costau cyflenwad dŵr £	£42,784	£35,483	£25,718
<b>Y defnydd o bapur</b>			
Y defnydd o bapur mewn rimiau (allanol a mewnol)	607	757	1,453
Y defnydd o bapur mewn rimiau (defnydd mewnol)	469	590	1,064
<b>Gwastraff</b>			
Cyfanswm gwastraff (tunnell)	32.57	31.02	34.8
Wedi'i aildefnyddio, ei ailgylchu, ei gompostio	14.2	12.5	21.1
Tirlenwi	18.33	18.52	13.73
Peryglus	-	0.4	15.1 (difrod tân)
Wedi'i aildefnyddio, ei ailgylchu, ei gompostio fel % o'r holl wastraff	43.6%	40%	60.6%
Cyfanswm cost gwaredu £ (heb gynnwys Gwastraff o'r Tân)	£9,216	4,052	2,858
<b>Allryriadau nwyon tŷ gwyr</b>			
Cyfanswm y tunelli o allyriadau CO <sub>2</sub> cyfatebol			
Oherwydd teithio busnes			
Mewn car	58	70	66.6
Ar y trênn neu awyren	1	-	-
Oherwydd y defnydd o ynni (1,000 tCO <sub>2</sub> e)			
Trydan a Nwy	1,811	1,773	1,720
Oherwydd y defnydd o ynni			
Trydan	2,687,696	2,446,648	2,358,799
Nwy	3,283,225	2,976,625	3,148,131
*Mae'r uchod yn cynnwys yr ardaloedd dan reolaeth y Comisiwn Brenhinol sydd wedi cynyddu y defnydd yn sylweddol yn y flwyddyn.			
Gwariant ar deithio busnes (£(Car, Trênn, Bws ac Awyren)	£41,768	£53,828	£66,113
Gwariant ar Fan y Llyfrgell	£11,539	£8,967	£5,320
Cyfanswm gwariant ar ynni £	£354,128	£343,116	£341,960

\*WTE = cyfwerth ag amser cyflawn

Nodyn ar Ynni:

Mae'r costau yn rhoi'r cyfanswm ar gyfer y safle gan gynnwys ynni a ddarparwyd i adeilad cyfagos, ond mae'r defnydd ar gyfer adeiladau'r Llyfrgell Genedlaethol yn unig. Mae Cynllun Lleihau Carbon yn cael ei ddiweddarau ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Carbon. Er mwyn cyflawni unrhyw arbedion sylweddol, mae'r Cynllun wedi nodi y bydd angen buddsoddi'n sylweddol ac, felly, bydd yn rhaid cael rhagor o arian gan Lywodraeth Cymru i'w weithredu. Mae nifer o gynlluniau wedi cael eu hadnabod ynghyd â rhagamcan o'r costau a chyfnodau ad-dalu; bydd y rhain yn cael eu hystyried a'u datblygu dros y blynyddoedd nesaf yn dibynnu ar yr arian a fydd ar gael.

Mae gwastraff garddwriaethol a gynhyrchir ar y safle yn cael ei gompostio ar y safle. Nid yw maint y gwastraff hwn yn cael ei fesur.

## 6 POLISIÂU YN YMWNEUD Â STAFFIO

### 6.1 Cyflog Byw

Mae'r Llyfrgell wedi talu'r cyflog byw fel y nodwyd gan y Sefydliad Cyflog Byw ers mis Ebrill 2014.

### 6.2 Recriwtio a Chadw Staff

Dim ond drwy ymrwymiad ei staff y gall y Llyfrgell gyflawni ei nodau, felly mae'r Llyfrgell yn canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant i sicrhau bod yr holl aelodau staff yn cyflawni eu potensial.

### 6.3 Cyflogi Pobl Anabl

Mae gan y Llyfrgell drefn recriwtio nad yw'n gwahaniaethu ac mae bob amser yn fodlon ystyried ceisiadau gan bobl anabl, a'u penodi. Hefyd, mae'r Llyfrgell yn ymdrechu'n galed i sicrhau bod gweithwyr anabl yn cael y cyfleusterau sydd eu hangen arnynt i gyflawni'u gwaith yn effeithiol.

### 6.4 Ymgynghori â Gweithwyr

Mae'r Llyfrgell yn cyfathrebu gwybodaeth i staff mewn sawl ffordd gan gynnwys cyfarfodydd staff, e-byst wythnosol, sesiynau briffio tim, Briff Craidd, ac ymgynghori a negodi rheolaidd gyda'r Cyngor Partneriaeth a cynrychiolwyr yr Undebau Llafur cenedlaethol. Mabwysiadodd y Llyfrgell Strategaeth Cyfathrebu Mewnol yn 2016 a bydd gweithredu'r Strategaeth hon yn gyfle pellach i ddatblygu'r berthynas rhwng rheolwyr a staff.

### 6.5 Adroddiad Tâl

Mae'r Llyfrgell yn talu ei holl staff o dan system talu a graddio y cytunwyd arni. Cymeradwywyd y system bresennol gan Dim Gweithredol y Llyfrgell a chytunodd yr undebau staff iddi drwy'r trefniadau cydfargeinio. Mae proses apêl annibynnol mewn lle i ystyried materion yn ymwneud â graddio.

Bob blwyddyn, mewn ymgynghoriad ag undebau'r staff, mae'r Llyfrgell yn ystyried pecyn taliadau'r Llyfrgell yn erbyn cymaryddion allanol, symudiadau yn yr economi ac unrhyw annhegwch mewnol a all fod wedi datblygu. O hyn, cynhyrchir cylch cyflog neu gynnig, a chyflwynir hwn i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo, ac yna fe'i negodir yn ffurfiol â'r undebau. Mae hyn yn arwain at becyn tâl ac amodau newydd ar gyfer holl staff y Llyfrgell sy'n gyfrwymol tan y rownd negodi nesaf. Mae codiadau cynyddrannol dan y cylch cyflog yn dibynnu ar system y Llyfrgell o arfarniadau blynyddol. Mae elfennau chwyddiant sydd wedi'u cynnwys yn y cylch cyflog y cytunwyd arno yn cael eu dyfarnu'n awtomatig i bob aelod staff.

Mae cyflog y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd yn cynnwys cyflog sylfaenol gyda opsiwn i ddyfarnu bonws blynyddol heb ei gyfuno. O 2015/16, mae cyflog y Prif Weithredwr wedi'i gynnwys yng nghylch gwaith cyflogau cyffredinol a bydd yn codi yn unol â'r dyfarniad cyflog chwyddiantol y cytunir arno ar gyfer yr holl staff. Cyfunir canran o'r dyfarniad i mewn i'w chyflog blynyddol. Telir gweddill y dyfarniad, hyd at uchafswm o 10%, fel taliad blynyddol heb ei gyfuno. Pennir yr elfen anghyfyngedig gan Swyddogion y Llyfrgell (y Llywydd, yr Is-lywydd a'r Trysorydd), yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r tâl uchaf ar gyfer Prif Weithredwr. Does dim dyfarniad anghyfunol ar gyfer 2016/17 (2015/16: £0). Mae gan y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd presennol contract cyflogaeth cyfnod penodol ac mae'n aelod cyffredin o gynllun pensiwn y Llyfrgell.

Mae rheolwyr hŷn eraill yn derbyn cyflog gros, sydd yn cael ei benderfynu fel rhan o'r broses o negodi'r cylch cyflog ar gyfer holl aelodau staff eraill y Llyfrgell. Cymeradwyir y cylch cyflog gan Lywodraeth Cymru. Mae gan staff hŷn gcontractau cyflogaeth parhaol ac maent yn aelodau cyffredin o gynllun pensiwn y Llyfrgell. Dangosir aelodau'r Tîm Gweithredol ar dudalen 2 a cheir rhagor o fanylion am y tâl a'r buddion pensiwn yn Nodyn 8 (c) y cyfrifon. Y cyfnod rhybudd ar gyfer aelodau'r Tîm Gweithredol yw 3 mis. Mae darpariaeth ar gyfer digolledu am derfynu'n gynnar wedi ei gynnwys yng nghytundeb diswyddo safonol y Llyfrgell.

## 7 CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL

Yn ystod 2016/17, datblygodd y Llyfrgell gynllun strategol am y cyfnod 2017-21 sydd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd y Llyfrgell i gaffael, rheoli a rhoi mynediad i'r casgliadau cenedlaethol yn y tymor hir.

Y prif amcanion strategol wedi cael eu gosod fel a ganlyn: -

- Bod yn warchodwyr rhagorol o'n casgliadau
- Cyfrannu at Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Sicrhau mynediad hir dymor i'r casgliadau cenedlaethol
- Bod yn ganolog i fywyd diwylliannol y genedl
- Sicrhau gwytnwch hirdymor

O fewn y cynllun gweithredu, mae targedau tymor hir wedi cael eu gosod erbyn 2021, sef y byddwn yn:

- Cynnal ein gwasanaethau a'n gweithgareddau craidd fel Llyfrgell Adnau Cyfreithiol ar yr amod y bydd ein grant gan Lywodraeth Cymru yn parhau'n sefydlog dros y pedair blynedd;
- Parhau i hyrwyddo ac annog defnyddio'r Gymraeg yn ein holl weithgareddau mewnol ac allanol a chydymffurfio â'n dyletswyddau statudol i gyflawni Safonau'r Gymraeg a gytunwyd gyda Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg;
- Sefydlu Partneriaeth Strategol gyda Cadw, Amgueddfa Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a'r Undebau Llafur i ddatblygu Cymru Hanesyddol erbyn Gorffennaf 2017;
- Gweithredu strategaeth gychwynnol i ddarparu gofynion statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) erbyn Rhagfyr 2017;
- Cwblhau Archwiliad Sgiliau a Rhaglen Ddatblygu, a gweithredu Strategaeth Pobl a Chynllun Datblygu'r Gweithlu erbyn 2018;
- Cwblhau adroddiad cwmpasu er mwyn sefydlu fframwaith ar gyfer Archif Genedlaethol I Gymru erbyn Mawrth 2019;
- Cymryd rôl arweiniol i weithredu Strategaeth Cadwedigaeth Ddigidol Genedlaethol i Gymru erbyn 2019;
- Parhau i gyfrannu adnoddau addysgol digidol ar Hwb, darparu rhaglen Casgliad y Werin Cymru mewn partneriaeth, a chefnogi'r gwaith o ddarparu Rhaglen Cymru'n Cofio 1914-1918, a thrwy hynny, cynyddu ein hallbwn o 10% erbyn 2019;
- Gwella a mireinio isadeiledd technegol a chynnwys y Bywgraffiadur, gan weithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd erbyn 2019;
- Cwblhau rhaglen gyfalaf fawr a datblygu Cynllun Rheoli Asedau newydd erbyn 2020;
- Parhau i ymestyn ein strategaethau marchnata ac ymgysylltu gyda defnyddwyr, cefnogi Blwyddyn Chwedlau yn 2017 a Blwyddyn y Môr yn 2018, a chodi'r nifer o ymwelwyr i'r Llyfrgell a'r nifer sydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o 15% erbyn 2021;

- Cynyddu incwm masnachol, grantiau a rhoddion, er mwyn codi £1 miliwn bob blwyddyn erbyn 2021;
- Dyblu ein defnydd digidol i 3 miliwn o ymweliadau erbyn 2021;
- Dyblu nifer yr eitemau digidol i 10 miliwn erbyn 2021;
- Cynyddu ein gwaith estyn allan ac ymgysylltu ar gyfer y Rhaglen Gyfuno o 20% erbyn 2021;
- Datblygu perthynas strategol â BBC Cymru Wales, S4C ac ITV Wales i warchod a rhoi mynediad at ddeunyddiau darlledu erbyn 2021;
- Cadw ein achrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cwsmer a Safon Aur Croeso Cymru tan 2021;
- Parhau i weithio gyda Wikimedia UK i ddatblygu a gwreiddio ymgysylltu digidol â'n cynnwys agored ar Wikipedia a llwyfannau trydydd parti eraill er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n gweld cynnwys y Llyfrgell i 250 miliwn erbyn 2021 a chyfrannu'n weithredol at ddatblygu cynnwys yn Gymraeg ar Wikipedia.

Erbyn Mawrth 2021, amcanion y Llyfrgell yw y byddwn wedi llwyddo i: -


- gynyddu defnydd ac ymwybyddiaeth pobl o'i chasgliadau, gwasanaethau a gweithgareddau ar draws Cymru a thu hwnt;
- barhau i ddarparu yn llwyddiannus ei dyletswyddau statudol fel Llyfrgell Adnau Cyfreithiol o dan ei Siarter ac wedi cyflawni ei blaenoriaethau strategol yn unol â Llythyr Cylch Gorchwyl blynyddol Llywodraeth Cymru;
- weithredu trefniadau llywodraethiant a strategaethau blaengynllunio ariannol fel y gall wynebu'r cyd-destun ariannol ansicr ar gyfer cyrff cyhoeddus yn fwy gwydn;
- sicrhau bod staff y Llyfrgell yn gweithio mewn strwythur sefydliadol sy'n cefnogi datblygu sgiliau a hyrwyddo cydweithrediad a gweithio hyblyg;
- gryfhau ei phartneriaethau strategol yn y sector diwylliant a threftadaeth yng Nghymru a thu hwnt. Drwy wneud hyn, bydd yn ehangu ei chyrhaeddiad yn ddigidol a ffisegol, gan ddarparu gwasanaethau lle gall pobl eu derbyn yn y ffordd sydd hawsaf iddynt;
- gyfrannu'n llawn at fywyd diwylliannol y genedl, gan weithredu ar draws Cymru, a chanolbwyntio ar ardaloedd lle cyfyngir mynediad at weithgareddau diwylliannol a chefnogi gwasanaethau yn Gymraeg;
- ehangu ei rôl arweiniol yn rheoli, gwarchod a darparu gwybodaeth ddigidol yng Nghymru, gan gynnig ei harbenigedd i sefydliadau eraill lle bo adnoddau'n caniatáu;
- i barhau i fod yn sefydliad cenedlaethol dwyieithog unigryw a gwerthfawr

#### Ymddiriedolwyr


Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cydymffurfio â'u dyletswydd yn Adran 11 o Ddeddf Elusennau 2011 i roi sylw dyladwy i'r canllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau.

#### Archwilydd

Mae'r Cyfrifon yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol ag Adran 9(8) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992 ar gyfer Cymru.

  
Linda Tomos

PRIF WEITHREDWR A LLYFRGELLYDD  
21 Gorffennaf 2017

  
Colin R John

TRYSORYDD  
21 Gorffennaf 2017

**DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU'R BWRDD A'R LLYFRGELLYDD**

O dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992, mae'n ofynnol bod Bwrdd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn paratoi datganiad cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a bennir gan Weinidogion Llywodraeth Cymru gyda chydysyniad y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon i roi darlun gwir a theg o weithgareddau ariannol y Llyfrgell yn ystod y flwyddyn ac am ei sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.

Wrth baratoi cyfrifon y Llyfrgell, mae'n ofynnol bod y Bwrdd yn:-


- Glynw wrth y cyfarwyddyd cyfrifyddu a gyhoeddir gan weinidogion Llywodraeth Cymru gan gynnwys y gofynion datgelu a chyfrifyddu perthnasol, a'u defnyddio'n gyson.
- Gwneud penderfyniadau a rhagamcanion sy'n rhesymol a darbodus.
- Dweud a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol a'r datganiadau o'r arferion a argymhellir wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol.
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfryw, oni bai nad yw'n briodol tybio y bydd y Llyfrgell yn parhau i weithredu.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar ran Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r Llyfrgellydd yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Llyfrgell. Mae ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae hi'n atebol amdano a thros gadw cofnodion priodol, yn cael eu disgrifio ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru.

**Datganiad Datgelu Gwybodaeth Archwilio Berthnasol**

Hyd y gwyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, ac mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd yr holl gamau y dylai eu cymryd i sicrhau ei bod yn gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Linda Tomos  
PRIF WEITHREDWR A LLYFRGELLYDD  
21 Gorffennaf 2017



Llofnodwyd ar ran y Bwrdd gan:

Colin R John  
TRYSORYDD  
21 Gorffennaf 2017



### **Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 yn sgil adran 9 o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth wedi'i harchwilio.

### **Priod gyfrifoldebau'r Llyfrgellydd a'r archwilydd**

Fel yr esbonnir yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Llyfrgellydd, mae'r Llyfrgellydd yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, yn unol ag adran 9 o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru yn sgil y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â chyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (Y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

### **Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**

Mae archwiliad yn cynnwys casglu tystiolaeth ddigonol am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol ar gyfer amgylchiadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Yn ogystal â hyn, casglaf dystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant wedi'u cymhwyso i ddibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Yn ogystal â hyn, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi agweddau perthnasol sy'n anghyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel pe bai'n berthnasol anghywir ar sail yr wybodaeth a ddaw i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf oblygiadau hynny i'm tystysgrif a'm hadroddiad.

### **Barn ar y Datganiadau Ariannol**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 31 Mawrth 2017 a'i gwariant net, ei henillion a'i cholledion cydnabyddedig a'i llifoedd arian, ar gyfer y flwyddyn honno a ddaeth i ben; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru yn sgil adran 9 o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992.

**Barn ar Reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Dâl sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru yn sgil adran 9 o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992; ac
- mae'r wybodaeth a gafodd ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Materion yr wyf yn adrodd arnynt ar sail eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar y materion sy'n dilyn, y byddwn yn adrodd arnynt petawn i o'r farn:

- nad yw'r Datganiad Llywodraethiant yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM;
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Dâl sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nad yw'r wybodaeth a fanylwyd gan Weinidogion Cymru ynghylch taliadau a thrafodion eraill wedi'i datgelu; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau ar y datganiadau ariannol hyn.



Huw Vaughan Thomas  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ  
1 Awst 2017

## DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2017

Nodyn	CRONFEYDD CYHOEDDUS		CRONFEYDD PREIFAT		2016/17	2015/16
	Anghyfyngedig £'000	Cyfyngedig £'000	Anghyfyngedig £'000	Cyfyngedig £'000	Cyfanswm £'000	Cyfanswm £'000
<b>Incwm:</b>						
Rhoddion ac ewyllysiau	15b	-	11	206	217	585
Gweithgareddau elusennol						
Grantiau'r Llywodraeth	2	9,261	-	-	10,838	11,618
Grantiau Eraill	3	-	-	3	280	462
Incwm masnachol	4	679	-	-	679	569
Incwm Buddsoddi	15b	-	219	22	241	217
<b>Cyfanswm incwm</b>		9,940	230	231	12,255	13,451
<b>Gwariant:</b>						
Costau codi arian	5	766	33	3	897	824
Gweithgareddau elusennol						
Casglu	5	2,215	-	-	2,820	2,493
Darparu Mynediad a Gwybodaeth	5	2,547	6	-	2,908	3,021
Hyrwyddo a Dehongli	5	1,388	-	44	1,930	2,167
Cadwraeth a Diogelu	5	2,858	-	-	3,421	3,299
Llywodraethiant	5	705	-	-	792	1,033
Gwariant materol						
Ffioedd yn gysylltiedig â'r than	23a	-	-	-	-	19
Setliad / taliad Tribiwnlys	23b	-	-	-	-	45
Taliadau diswyddo	23c	-	-	-	-	78
Trydydd Adeilad y Llyfrgell	23d	-	-	-	-	440
<b>Cyfanswm gwariant (Enillion)/Colled ar waredu asedau sefydlog (Enillion)/Colled ar waredu buddsoddiadau</b>		10,479	2,203	39	47	12,768
Costau Cyllid Pensiwn	22d	-	7	-	-	7
(Gwariant)/incwm net	15b	-	-	(363)	(37)	(400)
Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd	22d	240	-	-	-	240
<b>(Colledion)/Enillion cydnabyddedig eraill:</b>		10,719	2,210	(324)	10	12,615
Enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau	15b	(779)	(356)	554	221	(360)
Ailbrisio Asedau Sefydlog	10	-	40	699	(739)	-
Diriaethol a mynegeio	22e	(880)	-	-	-	(880)
Enillion (colledion) actiwaraidd ar y cynllun pensiwn buddion diffiniedig		(880)	(7,570)	736	39	(7,675)
Cyfanswm enillion/(colledion)		(1,659)	(7,886)	1,989	(479)	(8,035)
<b>SYMUDIAD NET YN Y CRONFEYDD AM Y FLWYDDYN ARIANNOL</b>		(7,301)	82,692	7,880	7,768	91,039
<b>BALANSAU'R CRONFEYDD A DDYGWYD YMLAEN AR 1 EBRILL</b>	15	(8,960)	74,806	9,869	7,289	83,004
<b>BALANSAU'R CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN AR 31 MAWRTH</b>	15					91,039

Mae pob gweithgarwch yn parhau. Caiff yr holl enillion a cholledion cydnabyddedig eu cofnodi yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol. Mae'r nodiadau ar dudalennau 26 i 47 yn rhan o'r cyfrifon hyn.



## Y FANTOLEN AR 31 MAWRTH 2017

		31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	Nodiadau	£000	£000
<b>ASEDAU SEFYDLOG</b>			
Asedau Diriaethol	10	60,031	68,009
Asedau Treftadaeth	12	20,234	19,885
Buddsoddiadau	11	10,057	8,678
		<u>90,322</u>	<u>96,572</u>
<b>ASEDAU CYFREDOL</b>			
Stoc		44	52
Dyledwyr	13	1,182	1,388
Banc		1,134	1,207
		<u>2,360</u>	<u>2,647</u>
<b>CREDYDWYR</b>			
Banc		(26)	(1)
Symiau yn ddyledus o fewn blwyddyn	14	(557)	(719)
		<u>(583)</u>	<u>(720)</u>
<b>ASEDAU CYFREDOL NET</b>		1,777	1,927
Symiau yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	14	(25)	(50)
Asedau net heb gynnwys rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn		<u>92,074</u>	<u>98,449</u>
Ased pensiwn buddion diffiniedig (rhwymedigaeth)	22	(9,070)	(7,410)
<b>ASEDAU NET GAN GYNNWYS RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN</b>		<u>83,004</u>	<u>91,039</u>
<b>CRONFEYDD</b>	15		
Cyhoeddus Anghyfyngedig		110	109
Pensiwn wrth gefn		(9,070)	(7,410)
Cyfanswm y Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig		<u>(8,960)</u>	<u>(7,301)</u>
Cyhoeddus Cyfyngedig (heb gynnwys y Gronfa Ailbrisio)		55,513	55,829
Cronfa Ailbrisio		19,293	26,863
Preifat Anghyfyngedig		9,869	7,880
Preifat Cyfyngedig		192	800
Casgliadau Cyfyngedig Preifat		<u>7,097</u>	<u>6,968</u>
		<u>83,004</u>	<u>91,039</u>

Mae'r ymddiriedolwyr wedi paratoi'r cyfrifon yn unol ag adran 138 o Ddeddf Elusennau 2011.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 26 i 47 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Linda Tomos  
PRIF WEITHREDWR A  
LLYFRGELLYDD  
21 Gorffennaf 2017



Colin R John  
TRYSORYDD



21 Gorffennaf 2017

## DATGANIAD LLIF ARIAN AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2017

		2016/17		2015/16	
		£000	£000	£000	£000
Arian parod a gynhyrchwyd drwy weithgareddau gweithredol	17		1,221		752
<b>Arian parod o weithgareddau buddsoddi: -</b>					
Prynu asedau sefydlog diriaethol	10	(896)		(3,421)	
Prynu asedau treftadaeth	12	(218)		(303)	
Enillion wrth werthu buddsoddiadau	11	3,255		1,203	
Prynu Buddsoddiadau	11	<u>(3,583)</u>		<u>(1,527)</u>	
<b>Arian parod net a ddarparwyd gan (a ddefnyddiwyd mewn) (g)weithgareddau buddsoddi</b>			<b>(1,442)</b>		<b>(4,048)</b>
<b>(Lleihad)/ Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod</b>			<b>(221)</b>		<b>(3,296)</b>
<b>Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod</b>			<b>2,196</b>		<b>5,492</b>
Cyfanswm yr arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	18		<u>1,975</u>		<u>2,196</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 26 i 47 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Nid oes incwm na gwariant gwaddol i adrodd arnynt.

## NODIADAU I'R CYFRIFON AR 31 MAWRTH 2017

### 1 POLISIÂU CYFRIFYDDU

Mae'r prif bolisiau cyfrifyddu a fabwysiadwyd, y penderfyniadau a'r prif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif wrth baratoi'r datganiadau ariannol fel a ganlyn:

#### (a) **Sail paratoi**

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon (FRS102) (a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2015) (SORP Elusennau (FRS102) a Chyfarwyddyd Cyfrifon 2000 a roddwyd i'r Llyfrgell gan y Cynulliad Cenedlaethol ar ran Llywodraeth Cymru. Paratwir y cyfrifon ar sail busnes byw.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cyd-fynd â'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS102. Caiff asedau a rhwymedigaethau eu cydnabod i gychwyn ar werth trafodion neu gostau hanesyddol oni nodir yn wahanol yn y nodyn/nodiadau polisi cyfrifyddu perthnasol.

Mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion y Safonau Cyfrifyddu a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol i'r graddau y bo'r gofynion hynny'n briodol. Nid yw'r Cyfarwyddyd Cyfrifyddu yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llyfrgell lunio cyfrif incwm a gwariant cryno na nodyn cost hanesyddol ar wargedau neu ddiffygion.

#### (b) **Adnoddau a Dderbyniwyd**

Caiff yr holl incwm ei gydnabod pan fydd gan yr elusen hawl i'r cronfeydd, pan fydd unrhyw amodau perfformiad sy'n gysylltiedig â'r eitem wedi'u bodloni, pan fo'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn a gellir mesur y swm yn ddibynadwy. Caiff pob Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru ei gydnabod yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol yn y flwyddyn y caiff ei dderbyn, oni bai ei fod yn ymwneud ag arian Buddsoddi i Arbed lle caiff ei drin fel credydwr. Ni chaiff Cymorth Grant Cyfalaf ei ohirio dros oes yr ased. Caiff grantiau eraill a dderbyniwyd eu cydnabod ar sail derbyniadau pan mae amodau'r grantiau wedi'u bodloni.

Ar gyfer etifedd, tybir bod hawl yn golygu'r cynharaf o'r canlynol: y dyddiad y daw'r elusen yn ymwybodol bod profiant wedi'i roi, y dyddiad y bydd yr ystâd wedi'i therfynu a bydd yr ysgutor(ion) wedi hysbysu'r Llyfrgell y bydd dosbarthiad yn cael ei wneud, neu'r dyddiad y derbynnir dosbarthiad gan yr ystâd. Lle bo'r elusen wedi'i hysbysu o etifeddiaeth, neu lle bo'r elusen yn ymwybodol bod profiant wedi'i roi, ac nad yw'r meini prawf ar gyfer cydnabod incwm wedi'u bodloni, yna caiff yr etifeddiaeth ei thrin fel ased wrth gefn a'i datgelu os yw o bwys. Rhoddir cyfrif am drosglwyddiadau o gronfeydd preifat ar ôl ystyried y symudiadau yn y cyfalaf gweithio. Bydd incwm a dderbyniwyd yng nghyswllt cyfnodau cyfrifyddu dilynol yn cael ei drin fel incwm gohiredig.

#### **Cyfrifyddu Arian**

Mae cronfeydd anghyfyngedig (cyhoeddus a phreifat) ar gael i'w gwario ar weithgareddau sy'n datblygu unrhyw un o amcanion cyffredinol y Llyfrgell.

Mae'r cronfeydd cyhoeddus cyfyngedig yn cynrychioli Grantiau Prynu a Chyfalaf a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru at ddibenion penodol.

Mae'r cronfeydd cyfyngedig preifat yn gronfeydd sy'n rhwym wrth gyfyngiadau penodol a osodir gan roddwyr neu gan ddiben yr apêl. Cronfeydd anghyfyngedig yr elusen yw'r cronfeydd dynodedig y mae'r ymddiriedolwyr wedi penderfynu yn ôl eu disgrisiwn eu bod am eu rhoi o'r neilltu at ddiben penodol. Mae'r cronfeydd cyfyngedig preifat yn rhoddion y mae'r rhoddwyr wedi nodi eu bod am iddynt gael eu defnyddio ar gyfer maes penodol o waith y Llyfrgell neu ar gyfer prosiect penodol a gaiff ei gyflawni gan y Llyfrgell.

**(c) Gwariant**

Caiff gwariant ei gydnabod pan fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i dalu trydydd parti, pan fo'n debygol y bydd setliad yn ofynnol a gellir mesur swm y rhwymedigaethau'n ddibynadwy. Lle yr aed i wariant ymlaen llaw a lle bo'n ymwneud â chyfnod diweddarach, dim ond os bydd rhagdaliad yn werth mwy na £5,000 y caiff ei ystyried. Caiff gwariant ei ddsbarthu o dan y penawdau gweithgarwch canlynol:

- Mae cost codi arian yn cynnwys costau gweithgareddau masnachol, costau codi arian a ffioedd rheoli buddsoddiadau.
- Mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys costau cynnal a chadw casgliadau, cadwraeth, addysg ac arddangosfeydd a gweithgareddau eraill a gynhaliwyd i hyrwyddo dibenion yr elusen.
- Mae gwariant arall yn cynrychioli'r eitemau hynny nad ydynt yn perthyn i unrhyw benawdau eraill.

**(d) Buddsoddiadau**

Datganir buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad ar ddyddiad y fantolen. Caiff enillion a cholledion wrth waredu eu credydu neu eu cofnodi yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol. Bydd symudiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiad hwnnw yn unol â'r Datganiad o'r Arferion a Argymhellir yng nghyflwrllt Cyfrifyddu ar gyfer Elusennau.

**(e) Asedau Diriaethol**

Dangosir Tir ac Adeiladau yn ôl gwerth y defnydd cyfredol ohonynt neu gost eu hadnewyddu ar ôl dibrisiant yn achos adeiladau arbenigol. Ceir prisiad allanol bob pum mlynedd, a defnyddir mynegeion priodol i newid y prisiad hwnnw yn ystod y blynyddoedd yn y canol neu, os bu newid sylweddol yng ngwerth yr asedau, gellir gwneud cais am brisiad rhwng y cyfnodau hyn. Cofnodir enillion a cholledion sy'n deillio o ailbriso yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol yn y flwyddyn y byddant yn digwydd.

Caiff asedau sefydlog cerbydau modur, offer, peiriannau a chyfarpar unigol sy'n costio £5,000 neu fwy eu cyfalafu ar gost, oni bai bod y cyfarpar yn rhan o grŵp o asedau, rhwydwaith neu brosiect sy'n werth mwy na £5,000. Bydd yr asedau yn colli'u gwerth dros amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol ar sail llinell syth.

Darperir dibrisiant yn llawn yn y flwyddyn gaffael, ar gyfraddau a fydd yn lleihau pob ased i amcangyfrif o'i werth gweddilliol yn wastad dros ei oes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig, yn unol â chynghor y priswyr, fel a ganlyn:

- |  |                      |
|--|----------------------|
| ➤ Adeiladau rhydd-ddaliad                    | - hyd at 125 mlynedd |
| ➤ Offer, peiriannau a chyfarpar              | - hyd at 30 mlynedd  |
| ➤ Offer cyfrifiadurol a datblygiadau digidol | - hyd at 10 mlynedd  |
| ➤ Cerbydau Modur                             | - hyd at 5 mlynedd   |

Nid yw tir rhydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio.

Nid yw Pryniannau i'r Casgliadau yn cael eu dibrisio.

**(f) Asedau Treftadaeth**

Cyn 1 Ebrill 2001, nid oedd casgliad y Llyfrgell wedi'i gyfalafu yn y fantolen. Rhoddwyd pryniannau i'r casgliad dan bennawd Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol ym mlwyddyn eu caffael. Caiff pryniannau ar gyfer y casgliad eu cyfalafu ym mlwyddyn eu caffael a'u cadw ar eu gwerth hanesyddol; ni chaiff yr asedau hyn eu hailbrisio na'u mynegeo.

Rhoddir cyfrif am eitemau sy'n cael eu rhoi yn rhoddion i'r casgliadau pan gânt eu derbyn ar ragamcan o'u gwerth ar y farchnad. Nid yw'r asedau hyn yn cael eu hailbrisio na'u mynegeo.

Nid yw Asedau Treftadaeth yn cael eu dibrisio gan fod iddynt oes amhenodol.

Bydd gwerth ased ar bapur (*carrying amount*) yn cael ei adolygu dim ond lle ceir tystiolaeth o amhariad (*impairment*).

**(g) Stoc**

Mae cost stoc o eitemau y gellir eu hailwerthu wedi'i gydnabod yn y fantolen yn ôl y gost neu'r gwerth gwireddadwy net, pa un bynnag yw'r isaf.

**(h) Costau Pensiwn**

Mae gan y Llyfrgell ei chynllun pensiwn ei hun sy'n darparu buddion sy'n seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol. Cofnodir cyfraniadau i'r cynllun yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol er mwyn lledaenu cost pensiynau dros fywydau gweithio'r gweithwyr. Cyfrifir yr hyn a gofnodir yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol ar sail cost gwasanaeth cyfredol fel y'i cyfrifir gan actwari'r cynllun.

**(i) Tâl gwyliau staff**

Ar ddiwedd y flwyddyn, mae hawl gwyliau staff nad yw wedi'i gymryd eto ac a gaiff ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf wedi'i ystyried yn y cyfrifon yn unol â gofynion FRS 102.

**(j) Trethiant**

Mae Cyllid a Thollau EM wedi rhoi statws elusennol i'r Llyfrgell ac felly mae wedi'i heithrio rhag treth ac incwm ac enillion sy'n rhan o adran 505 o Ddeddf Trethi 1988 neu adran 252 o Ddeddf Trethu Enillion Trethadwy 1992 i'r graddau bo'r rhain yn berthnasol i'w gwrthrychau elusennol. Mae Treth ar Werth nad yw'n adferadwy sy'n deillio o wariant ar weithgareddau anfasnachol yn cael ei chofnodi yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol neu ei chyfalafu os yw'n gysylltiedig ag ased sefydlog.

**(k) Busnes Byw**

Paratowyd cyfrifon y Llyfrgell ar sail busnes byw. Er bod lleihad yn y grantiau y bydd y Llyfrgell yn eu derbyn yn y dyfodol, mae'r amcanestyniadau presennol yn amcangyfrif y gall y Llyfrgell barhau gyda'i gweithgareddau presennol gan ariannu'r diffygion o'r cronfeydd preifat. Nid oes ansicrwydd perthnasol arall ynghylch gallu'r elusen i barhau.

**2. GRANTIAU'R LLYWODRAETH**

	2016/17 £000	2015/16 £000
<b>Anghyfyngedig</b>		
Grant Refeniw Craidd*	9,261	9,705
<b>Cyfyngedig</b>		
Cyfalaf - Grant Pwrcasu	200	305
Cyfalaf - Grant Datblygiadau Digidol	105	-
Cyfalaf - Cyffredinol	550	632
Cyfalaf - Mewnlenwi'r Iard/ Lle Storio ychwanegol	44	200
Diwylliant yn cwrdd â Busnes	-	20
Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli	239	255
Casgliad y Werin Cymru	140	165
ARCW	122	52
Cynefin	-	20
Y Rhyfel Mawr	115	213
Cymru yn y Rhyfel	22	51
Cymru'n Cofio	20	-
Cymraeg mewn Addysg - Wikipops	20	-
<b>Cyfanswm y grant a gafwyd gan Lywodraeth Cymru</b>	<b>10,838</b>	<b>11,618</b>

\*Derbyniwyd £270,000 yn ychwanegol o Gymorth Grant yn 2015/16 a gafodd ei ad-dalu yn 2016/17 o'r Cymorth Grant a ddarparwyd yn 2016/17

**3. GRANTIAU ERAILL**

	2016/17 £000	2015/16 £000
<b>Cyhoeddus cyfyngedig</b>		
Grantiau'r Undeb Ewropeaidd	-	91
Cynefin (Cronfa Treftadaeth y Loteri)	135	205
Datgloi Treftadaeth Ffilm (Sefydliad Ffilm Prydeinig)	75	83
Cymru yn y Rhyfel (grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri)	43	13
Mân grantiau eraill	24	49
	<b>277</b>	<b>441</b>
<b>Preifat anghyfyngedig</b>		
Ymddiriedolaeth Scottish Power	3	21
	<b>3</b>	<b>21</b>
<b>Cyfanswm y grantiau eraill</b>	<b>280</b>	<b>462</b>

## 4. INCWM O WEITHGAREDDAU MASNACHOL ERAILL

	2016/17	2015/16
	£000	£000
<b>Anghyfyngedig</b>		
Arlwyo	227	221
Incwm o'r siop	91	92
Digwyddiadau	34	21
Ymgynghori a systemau	9	27
Incwm a grëwyd o gasgliadau	140	76
Trwyddedu a breindaliadau	49	62
Amrywiol	113	56
Maes Parcio	16	14
	<b>679</b>	<b>569</b>

## 5 DADANSODDIAD O WARIANT

	Costau Staff	Costau Uniongyrchol eraill	Dibrisiant	2016/17	2015/16
	£000	£000	£000	Cyfanswm £000	Cyfanswm £000
Costau codi arian	385	417	95	897	824
<b>Gwariant Elusenol</b>					
Casglu	1,563	983	274	2,820	2,493
Darparu Mynediad a Gwybodaeth	1,991	602	315	2,908	3,021
Rhoi Cyhoeddusrwydd a Dehongli	1,233	525	172	1,930	2,167
Cadwraeth a Diogelu	2,740	327	354	3,421	3,299
Llywodraethiant	438	267	87	792	1,033
Eitemau materol	-	-	-	-	582
	<b>8,350</b>	<b>3,121</b>	<b>1,297</b>	<b>12,768</b>	<b>13,419</b>

## 6. (GWARIANT) / INCWM NET AM Y FLWYDDYN

	2016/17	2015/16
	£000	£000
Caiff hyn ei nodi ar ôl codi tâl am y canlynol:		
Dibrisiant	1,297	994
Tâl yr Archwilydd	35	28
Gwasanaethau cyfrifyddu	-	8
Ffioedd archwilio mewnol	10	23
Adroddiadau llywodraethiant eraill	-	20
Ffioedd rheoli buddsoddiadau	36	34

## 7. DADANSODDIAD O'R COSTAU CEFNOGI

Mae'r Llyfrgell yn nodi costau ei swyddogaethau cefnogi i ddechrau. Yna mae'n nodi'r costau hynny sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth llywodraethiant. Ar ôl nodi ei chostau llywodraethiant, caiff y costau cefnogi sy'n weddill eu dosrannu rhwng costau codi arian a'r pedwar prif weithgarwch elusennol a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Caiff costau cyflogau cefnogi eu dosrannu yn unol â chostau cyflogau ar gyfer pob adran, gyda chostau cefnogi nad ydynt yn ymwneud â staff yn cael eu dosrannu yn seiliedig ar wariant ar weithgarwch.

	Costau cynhyrchu cronfeydd £000	Casglu £000	Darparu Mynediad a Gwybodaeth £000	Rhoi Cyhoeddusrwydd a Dehongli £000	Cadwraeth a Diogelu £000	Llywodraethiant £000	Cyfanswm £000
Cefnogaeth Weithredol	2	3	9	12	7	16	49
Cyllid	17	14	51	46	32	48	208
Adnoddau Dynol	11	9	34	34	23	39	150
TGCh	65	60	215	216	144	258	958
Yr Adeilad	152	121	442	357	256	336	1,664
Arall	2	2	8	10	6	13	41
	249	209	759	675	468	710	3,070

## 8. DADANSODDIAD O GOSTAU STAFF, TALIADAU A THREULIAU YMDDIRIEDOLWYR A CHOSTAU PERSONÉL RHEOLI ALLWEDDOL

### (a) Cyfanswm Costau Staff

	2016/17 £000		2015/16 £000	
Cyflogau		5,814		6,077
Costau Nawdd Cymdeithasol		501		408
Cost gwasanaeth cyfredol	1,495		1,580	
Addasiad FRS102 ar gyfer cost gwasanaeth cyfredol	540		520	
		2,035		2,100
Tâl llog cyllid FRS102 (gweler nodyn 22)		240		170
		8,590		8,755

Nid oedd dim contractwyr byrdymor nac asiantaethau wedi'u cyflogi.

Ar wahân i'r staff a nodwyd yn 8 (c), nid oedd unrhyw aelod o staff yn ennill dros £60,000 (cyflog sylfaenol, lwfansau a thâl gwyliau dyledus)(2015/16: 1).

### (b) Y Cynllun Pensiwn

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu cynllun pensiwn a ariennir, sy'n gynllun pensiwn buddion diffiniedig, sy'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol pensiynadwy adeg oedran ymdeol arferol o 60. Bydd cyfraniadau'r aelodau sy'n gadael y cynllun ac sydd wedi cyfrannu am lai na 2 flynedd yn cael eu had-dalu iddynt. Mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/80<sup>fed</sup> o'r cyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sydd gyfwerth â thair blynedd o bensiwn pan fydd gweithiwr yn ymdeol. Pan fydd aelod yn marw, mae pensiynau'n daladwy i'r partner priod ar



gyfradd o hanner pensiwn yr aelod. Os bydd aelod yn marw ac yntau'n dal yn y swydd mae'r cynllun yn talu cyfandaliad. Mae ymddeol ar sail feddygol yn bosibl os bydd rhywun yn ddifrifol wael.

Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a dalwyd dros y cyfnod oedd £1.49m (2015/16 £1.58m). Cedwir asedau'r Cynllun ar wahân i rai'r Llyfrgell ac fe'u buddsoddwyd gyda Legal and General, sy'n rheoli portffolio o fondiau ac ecwitiau, ar sail oddefol yn bennaf. Dangosai'r prisiad actiwaraid ar 31 Mawrth 2016 fod gwerth asedau'r Cynllun ar y farchnad yn £56.5m a 'roedd gwerth actiwaraid yr asedau hynny'n werth 99% o rhwymedigaethau'r Cynllun. Mae nodyn 22 yn rhoi rhagor o wybodaeth am sefyllfa ariannol y cynllun pensiwn er mwyn cydymffurfio â gofynion FRS102. Cyhoeddir datganiad yr actwari yng Nghyfrifon Blyneddol Cronfa Bensiwn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn 2006/07, rhoddodd Llywodraeth Cymru Warrant y Goron i'r Cynllun, sy'n eithrio'r Cynllun rhag y Gronfa Diogelu Pensiynau a'r ardoll gysylltiedig.

### (c) Tâl y Tîm Gweithredol

Mae aelodau'r Tîm Gweithredol wedi ei nodi ar dudalen 2 (manylion Gweinyddol a Chyfeirio). Mae cyflog cyfunol y Llyfrgellydd yn cael ei nodi yn Rhan 6 o Adroddiad yr Ymddiriedolwyr (6.5).

Roedd cyflog y Llyfrgellydd 3.86 gwaith yn fwy na chyflog canolrif (£23,290) y Llyfrgell. Mae aelodau staff uwch eraill yn derbyn cyflog gros, y penderfynir arno fel rhan o'r broses o negodi'r cylch cyflog ar gyfer holl aelodau staff eraill y Llyfrgell. Mae'r Llyfrgellydd ar gontract tymor sefydlog ac mae gan yr holl staff uwch eraill gontractau cyflogaeth parhaol ac maent yn aelodau cyffredin o gynllun pensiwn y Llyfrgell.

Cyfrifir gwerth buddion pensiwn fel a ganlyn:

- (gwir gynnydd yn y pensiwn\* x20) + (gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad\*) – (cyfraniadau gan yr aelod)

\*heb gynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

Mae'r lluosydd 20 yn cael ei bennu yn y gofynion datgelu. Mae'r Llyfrgell wedi defnyddio'r ffigur hwn i gydymffurfio â'r canllawiau. Nid yw hwn yn swm sydd wedi'i dalu i unigolyn gan y Llyfrgell yn ystod y flwyddyn; cyfrifiad ydyw sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Mae llawer o bethau'n gallu dylanwadu ar y ffigurau hyn e.e. newidiadau i gyflog unigolyn, a yw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i gyflog neu beidio, a ffactorau priso eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn gyffredinol.

Mae Cynllun Pensiwn Staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gynllun cyflog terfynol a ariennir. Y cyfandaliadau a phensiynau cronodig yw'r symiau a fyddai'n cael eu talu o Ddyddiad Arferol Ymddeol pe bai'r aelod yn gadael y gwaith ar y dyddiad perthnasol. Y Gwerth Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth buddion y cynllun pensiwn wedi'i gyfalafu a gronwyd gan aelod ar unrhyw adeg, wedi'i asesu gan actwari, gan gynnwys unrhyw Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol a throsglwyddiadau gwasanaeth i'r cynllun. Mae'r gwerthoedd trosglwyddo wedi cael eu cyfrifo yn unol â nodyn canllaw "GN11" a gyhoeddir gan Sefydliad yr Actiwaraid a Chyfadran yr Actiwaraid. Tybiwyd mai cyfradd chwyddiant pris oedd 1.2%

Talwyd y taliadau canlynol i aelodau'r Tîm Gweithredol:

Tudalen y pecyn 191

	2016/17				2015/16			
	Cyflwg Cyfunol	Cyflwg heb ei Gyfuno	Cynnydd/ (gostyngiad) gwirioneddol mewn Buddion Pensiwn	Un Cyfanswm Tâl	Cyflwg Cyfunol	Cyflwg heb ei Gyfuno	Cynnydd (gostyngiad) gwirioneddol mewn Buddion Pensiwn	Un Cyfanswm Tâl
	£	£	£	£	£	£	£	£
Yr Athro AG Jones Llyfrgellydd (1/4/15 - 31/8/15)	n/a	n/a	n/a	n/a	37,500	3,115	11,050	51,665
Ms Linda Tomos Llyfrgellydd (2/11/15-31/3/17)	90,000	-	25,980	115,980	37,250	-	10,580	47,830
Ms A Jones Cyfarwyddwr Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus (1/04/15 -31/3/16)	n/a	n/a	n/a	n/a	64,175	12,534	67,610	144,319
Mr DH Michael Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol (1/04/15 -31/3/17)	69,322	4,231	26,460	100,013	64,175	8,166	61,860	134,201
Mr Pedr ap Llwyd Cyfarwyddwr Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus (1/04/16 -31/3/17) Ysgrifenyddiaeth (1/4/14-31/3/16)	69,322	4,170	77,740	151,232	57,273	1,552	40,250	99,075

Mae hawliau pensiwn staff uwch y Llyfrgell sy'n gyfrifol am redeg adrannau sy'n llunio polisiâu yn cael eu datgelu fel a ganlyn:-

	Gwerth Trosglwydd o sydd Gyferth ag Arian Parod ar 31/3/16	Cyfanswm Pensiwn Cronedig ar 31/3/17	Cyfan- daliad ar 31/3/17	Gwerth Trosglwyddo sydd Gyferth ag Arian Parod ar 31/3/17	Cynnydd mewn pensiwn cronedig net o chwyddiant	Cynnydd yn y cyfandaliad net o chwyddiant	Cynnydd (Gostyngiad) yn y gwerth trosglwyddo net o chwyddiant
	£	£	£	£	£	£	£
Ms L Tomos Llyfrgellydd	10,180	1,590	4,770	36,290	1,130	3,380	26,010
Mr DH Michael Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol	370,650	19,860	59,580	461,260	1,150	3,460	86,900
Mr P ap Llwyd - Cyfarwyddwr Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus (blaenorol Ysgrifenyddiaeth)	244,320	13,590	40,770	361,160	3,380	10,140	114,400

**(d) Cofrestr Rhoddion**

Mae gan y Llyfrgell gofrestr rhoddion hefyd. Nid oes dim eitem a nodwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei hystyried o fudd perthnasol i'r datganiadau ariannol hyn.

**9. NIFEROEDD STAFF**

Nifer y pen bob mis, ar gyfartaledd, oedd 249 (2015/16: 265) a nifer y staff cyfwerth ag amser llawn, ar gyfartaledd, a gyflogwyd gan y Llyfrgell (yn cynnwys staff achlysurol a rhan amser) yn ystod y flwyddyn oedd:

Niferoedd staff	2016/17	2015/16
Masnachu i godi arian	11.6	11.8
Casglu	44.9	48.4
Darparu Mynediad a Gwybodaeth	38.7	45.4
Rhoi Cyhoeddusrwydd a Dehongli	31.4	33.9
Cadwraeth a Diogelu	87.4	90.8
Llywodraethiant	9.4	11.9
<b>Cyfanswm</b>	<b>223.4</b>	<b>242.2</b>

Nid yw'r Bwrdd yn derbyn tâl. Cyfanswm y costau teithio, cynhaliath a lletygarwch a wariwyd gan y Llyfrgell ar aelodau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau oedd £7,823 (2015/16 £5,014), a hawliwyd hwn gan 11 o aelodau (2015/16: 10 aelod).

## 10 ASED AU SEFYDLOG DIRIAETHOL

	Tir Rhydd- ddaliad ac Adeiladau	Peiriannau, Ffitiadau a Chyfarpar	Cerbydau Modur	Technoleg Gwybodaeth a Datblygiadau Digidol	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000
Cost a Phrisio					
Ar 1 Ebrill 2016	65,929	3,139	13	5,740	74,821
Ychwanegiadau	348	131	-	417	896
Gwarediadau	-	(84)	-	-	(84)
Ail-brisio	(9,014)	-	-	-	(9,014)
Mynegeio	-	19	-	73	92
Ar 31 Mawrth 2017	57,263	3,205	13	6,230	66,711
Dibrisiant					
Ar 1 Ebrill 2016	720	2,624	13	3,455	6,812
A godwyd am y flwyddyn	676	108	-	513	1,297
Gwarediadau	-	(77)	-	-	(77)
Ail-brisio	(1,386)	-	-	-	(1,386)
Mynegeio	-	8	-	26	34
Ar 31 Mawrth 2017	10	2,663	13	3,994	6,680
Gwerth Llyfr Net Ar 31 Mawrth 2017					
Ar 31 Mawrth 2016	57,253	542	-	2,236	60,031
	65,209	515	-	2,285	68,009

Cafodd adeiladau, tir rhydd-ddaliadol a chyfarpar y Llyfrgell eu prasio'n broffesiynol gan Cooke ac Arkwright, Syrfewyr Siartredig, ar 31 Mawrth 2017 yn unol â Llawlyfr Arfarnu a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Prisiwyd adeiladau ar sail eu "gwerth ar y farchnad agored" neu "gost eu hadnewyddu wedi'i dibrisio", a dangosir y tir fel "gwerth y defnydd cyfredol ohono". Mae gwerth yr adeiladau wedi'i fynegio yn unol â'r mynegai BCIS All-In TPI, ac mae'r lleihad yng ngwerth y tir a'r adeiladau yn gyson gyda prisiad adeiladau yn 2015 ac heb gynyddu gwerth yn unol â'r mynegai. Prisiwyd y cyfarpar ar sail ei werth i'r Llyfrgell a'i fynegio yn ôl y mynegai CPI.

Defnyddiwyd pob ased diriaethol i hyrwyddo gweithgareddau elusennol y Llyfrgell.

Ni gyfalafwyd unrhyw gyflogau yn ystod y flwyddyn (2015-16 cyfalafwyd cyflogau 50 aelod o staff, sef cyfanswm o £97,317, yn ymwneud â symud staff y Comisiwn Brenhinol.)

## 11. BUDDSODDIADAU

	2015/16 £000	2015/16 £000
Gwerth ar y farchnad ar 1 Ebrill	7,687	7,589
Caffaeliadau yn ôl eu cost	3,583	1,527
Llai: Elw o waredu a Buddsoddiadau'n Aeddfedu	(3,255)	(1,203)
Elw o Waredu	400	155
(Colled) /Elw heb ei wireddu wrth ailbriso	775	(381)
Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth	9,190	7,687
Arian yn cael ei gadw ar gyfer buddsoddi	867	991
	10,057	8,678

Cost hanesyddol y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2017 oedd £8.39m (2015/16 £6.803m).

Buddsoddwyd yr asedau fel a ganlyn:-

	Giltiau, bondiau, dyleddebion a blaengyfrannau	Buddsoddiadau drwy unedau, ecwitiau, eiddo ac asedau amgen	Ecwitiau'r DU a fuddsoddwyd yn uniongyrchol ar farchnad stoc y DU	Arian	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rhif 1	1,784	3,581	3,129	137	8,631
Rhif 2	440	78	178	730	1,426
	2,224	3,659	3,307	867	10,057

Wrth benderfynu ar yr enillion y mae'r Llyfrgell am eu cael o'i phortffolio, a'r cydbwysedd rhwng incwm a thwf cyfalaf, mae'r Llyfrgell yn fodlon derbyn y bydd risgiau'n gysylltiedig â buddsoddi cronfeydd a fydd yn fwy na'r risg sy'n gysylltiedig â dim ond rhoi arian i gadw. Mae'r Llyfrgell yn fodlon derbyn y rhain gyhyd â'u bod o fewn lefelau derbyniol.

"Canolig" yw'r gair gorau i ddisgrifio archwaeth risg y Llyfrgell. Er mwyn sicrhau enillion gwell, mae'r Llyfrgell yn fodlon derbyn bod yn rhaid cymryd risgiau, ond bydd yr Ymddiriedolwyr hefyd yn ystyried sefyllfa'r Llyfrgell fel elusen a ariennir yn bennaf gan grant oddi wrth y Llywodraeth ac o'r herwydd y safonau stiwardiaeth sydd ynghlwm wrth hynny. Felly bydd y risgiau wrth fuddsoddi'n cael eu lleddfu gan y canlynol:

- **Dyrannu Asedau** - strategaeth dyrannu asedau nad yw'n peri bod yr arian yn rhy agored i amrywiadau mewn un sector penodol o'r sbectrwm buddsoddi - h.y. bydd cydbwysedd yn cael ei daro rhwng niferoedd y bondiau, ecwitiau, arian a buddsoddiadau eraill gan gynnwys eiddo, a buddsoddiadau yn y DU a heb fod yn y DU.
- **Ansawdd buddsoddiadau** - dim ond buddsoddiadau o ansawdd uchel y bydd y Llyfrgell yn eu hystyried megis giltiau a bondiau gradd buddsoddi neu ecwitiau a buddsoddiadau ar y cyd yn y FTSE 350.

**12. ASEDAU TREFTADAETH**

Cyfalafwyd yr Asedau Treftadaeth ar sail cost hanesyddol.

**Prynwyd neu rhoddwyd yn ystod y flwyddyn:**

	Llyfrau	Tanysgrifiadau	Lluniau Llawysgrifau a Mapiau	Eraill	Casgliadau Digidol	Archif Sgrin a Sain	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ar 01/04/2016	1,789	2,599	10,428	380	4,370	319	19,885
Ychwanegiadau	34	53	126	-	-	5	218
Rhoddion	4	-	123	-	-	4	131
Ar 31/03/2017	1,827	2,652	10,677	380	4,370	328	20,234

**Crynodeb ariannol pum mlynedd o'r ychwanegiadau:**

	2016/17	2015/16	2014/15	2013/14	2012/13
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Llyfrau	38	63	81	38	34
Tanysgrifiadau	53	109	63	106	98
Lluniau, Llawysgrifau a Mapiau	249	249	137	192	673
Casgliadau Digidol	-	-	194	300	547
Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru	9	29	6	8	7
<b>Cyfanswm yr Ychwanegiadau</b>	<b>349</b>	<b>450</b>	<b>481</b>	<b>644</b>	<b>1,359</b>

Mae gan y Llyfrgell bolisi y cytunwyd arno ar gyfer prynu, diogelu, a rheoli asedau treftadaeth. Mae copi o'r polisi ar gael gan y Cyfarwyddwr Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus. Nid yw'r Llyfrgell yn rhoi benthyg eitemau i ddefnyddwyr, ond mae modd cael gweld y casgliadau yn yr ystafelloedd darllen a manau arddangos yn yr adeilad, a hefyd ar-lein.

Ni chyfalafwyd unrhyw gyflogau yn ystod y cyfnod yma na'r cyfnod diwethaf.

Ers 1911, mae gan y Llyfrgell hawl i dderbyn copi o bob llyfr, cylchgrawn, papur newydd a deunydd print arall a gyhoeddir yn y DU ac Iwerddon. Deunydd o ddi-ddordeb Cymreig a Cheltaidd y mae'n ei gasglu'n bennaf. Mae ei chasgliadau ar hyn o bryd yn cynnwys:

- **Deunydd Print:** sy'n amrywio o *Yny lhyvyr hwnn*, y llyfr cyntaf yn yr iaith Gymraeg (a argraffwyd yn 1546) i raglenni digwyddiadau lleol megis cyngherddau a sioeau. Mae gan y Llyfrgell dros 6 miliwn o gyfrolau print.

- **Llawysgrifau ac archifau:** sy'n cynnwys eitemau amhrisiadwy o'r Canol Oesoedd fel Llyfr Llandaf, llawysgrif Chaucer Hengwrt, Llyfr Du Caerfyrddin yn ogystal â 'Cyfreithiau Hywel Dda' a brynwyd yn ddiweddar. Ceir yno hefyd ffynonellau dogfennol o'r Canol Oesoedd hyd heddiw, megis cofnodion sy'n gysylltiedig ag eglwysi a chapeli yng Nghymru gan gynnwys Cofnodion Plwyfi ac ewyllysiau. Mae hefyd yn derbyn traethodau ymchwil gan brifysgolion Cymru, archifau cyrff cyhoeddus a phapurau personol Cymry enwog o bob cefndir. Y mae dros 30,000 cyfrol o lawysgrifau, 4 miliwn o ddogfennau archif a 50 o drysorau celf yn y Llyfrgell.
- **Mapiau:** Hynafiaethol a modern ac atlasau, mapiau Arolwg Ordnans, siartiau moroedd, mapiau ffermydd, ystadau a mapiau degwm, cynlluniau rheilffordd a gwasanaethau cyhoeddus. Mae gan y Llyfrgell dros 1.5 miliwn o fapiau.
- **Lluniau:** yn portreadu pobl a llefydd yng Nghymru gan gynnwys paentiadau, printiau, ysgythriadau a lluniau eraill. Mae'r casgliadau hyn yn cynnwys dros 60,000 o luniau a 4,000 o ddarnau celf wedi'u fframio.
- **Ffotograffau:** o'r ffotograff cynharaf a dynnwyd yng Nghymru, daguerroteip o Gastell Margam, a dynnwyd yn 1841, i waith Mary Dillwyn, John Thomas, D. C. Harries a Geoff Charles. Mae gan y Llyfrgell oddeutu 950,000 o ffotograffau yn ei chasgliad.
- **Adnoddau electronig a delweddau digidol:** Mae'r casgliadau newydd hyn sydd wedi'u creu'n bennaf gan y Llyfrgell yn cynnwys dros 5 miliwn o ddelweddau.
- Mae gan Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru dros 250,000 awr o recordiadau sain, 300,000 awr o ddelweddau symudol, 7 miliwn troedfedd o ffilm, 200,000 eitem o Archif ffilm a theledu ITV a 15km o archif unigryw. Yn eu mysg y mae darllediadau teledu a radio, recordiadau ffilm amatur a sain, recordiau, casetiau a CDs, ffilmiau a fideos masnachol.

### 13 DYLEDWYR - yn ddyledus o fewn blwyddyn

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£000	£000
Dyledwyr Masnach	93	47
Ad-daliad TAW yn ddyledus	264	447
Blaendaliadau*	746	699
Dyledwyr Eraill ac Incwm Cronedig	42	159
Incwm Cronedig Cronfeydd Preifat	37	36
	<b>1,182</b>	<b>1,388</b>

\*Yn cynnwys blaendaliad o £400k (2015/16: £250K) i'r Cynllun Pensiwn

**14 (a) CREDYDWYR - Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn**

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£000	£000
Credydwyr Masnach	129	166
Croniadau ac incwm gohiriedig	204	325
Buddsoddi i Arbed*	25	25
Incwm gohiriedig Cronfeydd Preifat	53	78
Croniadau tâl gwyliau **	146	125
	<b>557</b>	<b>719</b>

Derbyniwyd benthyciad Buddsoddi i Arbed gwerth £75,000 yn ystod y flwyddyn i ariannu paneli ffotofoltaig a fydd yn arwain at gostau trydan is. Ad-delir y benthyciad hwn dros 3 blynedd - £25,000 y flwyddyn yn llai o Grant Craidd yn ddyledus.

**14 (b) CREDYDWYR - Symiau a ddaw'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn**

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£000	£000
Buddsoddi i Arbed*	25	50
	<b>25</b>	<b>50</b>

\*Derbyniwyd gwerth £75,000 o arian Buddsoddi i Arbed sy'n ad-daladwy dros 3 blynedd. Darparwyd yr arian i dalu am baneli ffotofoltaig a fydd yn arwain at gostau trydan is.



## 15 DADANSODDIAD O'R CRONFEYDD ELUSENNOL

## a. Dadansoddiad o symudiad y cronfeydd

	Ar 1 Ebrill 2016	Adnoddau a dderbyniwyd	Adnoddau a Wariwyd	Symudiadau Eraill Yn ystod y flwyddyn	Ar 31 Mawrth 2017
	£000	£000	£000	£000	£000
<b>CRONFEYDD CYHOEDDUS</b>					
Anghyfyngedig - Pensiwn Cyhoeddus	(7,410)	-	(540)	(1,120)	(9,070)
Anghyfyngedig	109	9,940	(9,939)	-	110
<b>Cyfyngedig: -</b>					
Cyfalaf	48,047	594	(1,297)	(7)	47,337
Cronfa Ailbriso*	26,863	-	-	(7,570)	19,293
Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli	-	239	(239)	-	-
ARCW	-	122	(122)	-	-
Casgliad y Werin Cymru	-	151	(140)	-	11
Cynefin	13	135	(134)	-	14
Y Rhyfel Mawr	9	115	(90)	(5)	29
Cymru yn y Rhyfel	1	65	(65)	(1)	-
Cymru'n Cofio	-	20	(20)	-	-
Datgloi Treftadaeth Ffilm - BFI	-	75	(75)	-	-
Wikipops	-	20	(20)	-	-
Diwylliant yn cwrdd â Busnes ac arall	7	13	(1)	46	65
Grant Pwrcasu a Datblygiadau digidol	7,752	305	-	-	8,057
	75,391	11,794	(12,682)	(8,657)	65,846
<b>CRONFEYDD PREIFAT</b>					
Anghyfyngedig	7,880	230	(39)	1,798	9,869
Cyfyngedig					
Cronfa casgliadau	6,968	131	-	(2)	7,097
<b>Cronfeydd preifat cyfyngedig eraill</b>					
D M Phillips	686	19	(3)	(702)	-
W Elwyn Davies	18	1	-	2	21
Y Fonesig Parry-Williams	34	1	-	4	39
Noel Jarman	60	2	-	7	69
Gwyneth Lloyd	2	-	-	-	2
Grant Pwrcasu	-	2	-	-	2
Cronfa Foyle	-	50	-	8	58
Eluned Gymraes Davies	-	22	(22)	1	1
Scottish Power	-	3	(22)	19	-
Cyfanswm y Cronfeydd Preifat	15,648	461	(86)	1,135	17,158
<b>CYFANSWM</b>	<b>91,039</b>	<b>12,255</b>	<b>(12,768)</b>	<b>(7,522)</b>	<b>83,004</b>

\*Mae'r gronfa ailbriso wedi'i chyfrifo yn seiliedig ar yr asedau a ailbrisiwyd ers 1999 yn unol â gofyniad FRS102 i nodi'r gronfa ailbriso ar wahân. Ni chaiff ailbrisiadau cyn 1999 eu cynnwys yn y gronfa hon.

Ymhlith y symudiadau eraill yn ystod y flwyddyn (£7,522) mae

- (Elw)/colled o werthu buddsoddiadau ac asedau (£393k)
- Cost cyllid pensiwn - (240k)
- (Colledion) / enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau - £775k
- Mynegeio ac Ailbriso Asedau Sefydlog Diriaethol (£7,570k)
- (Enillion)/colledion actiwariaid - (£880k)

**b. CRONFEYDD PREIFAT (yn cynnwys casgliadau)**

	Anghyfyngedig	Cyfyngedig	Casglu	Cyfanswm 2016/17	Cyfanswm 2015/16
	£000	£000	£'000	£000	£000
<b>Incwm</b>					
Rhoddion a Chymynroddion	11	75	131	217	585
Grantiau a dderbyniwyd	-	3	-	3	21
Llog sydd i'w Dderbyn	219	22	-	241	217
<b>Cyfanswm</b>	<b>230</b>	<b>100</b>	<b>131</b>	<b>461</b>	<b>823</b>
<b>Adnoddau a Wariwyd</b>					
Costau codi arian	33	3	-	36	35
Marchnata, arddangosfeydd, addysg (Elw)/colled o werthu buddsoddiadau	6 (363)	44 (37)	-	50 (400)	62 (155)
<b>Cyfanswm</b>	<b>(324)</b>	<b>10</b>	<b>-</b>	<b>(314)</b>	<b>(58)</b>
<b>Adnoddau net a Dderbyniwyd / (a Ddefnyddiwyd)</b>	<b>554</b>	<b>90</b>	<b>131</b>	<b>775</b>	<b>881</b>
Trosglwyddiadau	699	*(737)	(2)	(40)	(36)
	1,253	(647)	129	735	845
(Colled)/Elw heb ei wireddu wrth ailbriso buddsoddiadau	736	39	-	775	(381)
<b>Symudiad net yn y Cronfeydd Preifat yn ystod y flwyddyn</b>	<b>1,989</b>	<b>(608)</b>	<b>129</b>	<b>1,510</b>	<b>464</b>
Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill	7,880	800	6,968	15,648	15,184
<b>Cariwyd Ymlaen ar 31 Mawrth</b>	<b>9,869</b>	<b>192</b>	<b>7,097</b>	<b>17,158</b>	<b>15,648</b>

\*Mae trosglwyddiadau o cyfyngedig i anghyfyngedig yn cynnwys trosglwyddiad o Ymddiriedolaeth DM Phillips sydd wedi cael ei aiddosbarthu i anghyfyngedig yn dilyn cyngor cyfreithiol, gan nad oedd unrhyw gyfyngiadau penodol o fewn yr ewyllys.

**16. DADANSODDIAD O'R CRONFEYDD NET RHWNG Y CRONFEYDD**

	Cyhoeddus anghyfngedig £'000	Cyhoeddus cyfyngedig £'000	Preifat anghyfngedig £'000	Cyhoeddus cyfyngedig £'000	Cyfanswm £'000
Asedau Sefydlog Diriaethol	-	74,806	8,227	7,289	90,322
Arian yn y banc ac mewn llaw	(559)	-	1,667	-	1,108
Asedau cyfredol net/(rhwymedigaethau) eraill	694	-	(25)	-	669
Credydwy'r ar ôl mwy na blwyddyn	(9,095)	-	-	-	(9,095)
<b>Cyfanswm</b>	<b>(8,960)</b>	<b>74,806</b>	<b>9,869</b>	<b>7,289</b>	<b>83,004</b>

**17. CYSONI'R (GWARIANT) / INCWM NET Â'R LLIF ARIAN PAROD NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDOL**

	2016/17 £000	2015/16 £000
(Gwariant) / Incwm net ar gyfer y cyfnod adrodd (fel y datganiad gweithgareddau ariannol)	(360)	17
Llai: Elw o werthu buddsoddiadau	(393)	(155)
Ychwanegu'n ôl: Addasiad Pensiwn Llog FRS102	240	170
Ychwanegu'n ôl: Taliadau dibrisiant (Cynnydd)/Lleihad yn y stoc	1,297	994
	8	2
Rhoddion asedau (dim arian parod)	(131)	(147)
Gostyngiad/(Cynnydd) mewn dyledwyr (Gostyngiad)/Cynnydd mewn credydwyr	207	456
	(187)	(1,105)
Addasiad cost gwasanaeth cyfredol pensiwn	540	520
<b>Llif arian parod net o weithgareddau gweithredol</b>	<b>1,221</b>	<b>752</b>

**18. CYSONI LLIF ARIAN PAROD NET Â SYMUDIADAU YN Y CRONFEYDD NET**

	2016/17 £000	2015/16 £000
Arian mewn llaw	1,134	1,207
Adneuron rhybudd (llai na 3 mis)	867	990
Cyfleuster gorddrafft yn ad-daladwy ar alw	(26)	(1)
<b>Cronfeydd Net ar 31 Mawrth</b>	<b>1,975</b>	<b>2,196</b>

## 19. TRAFODION PARTIÖN CYSYLLTIEDIG

Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn cafodd y Llyfrgell arian gan y Llywodraeth ar ffurf Cymorth Grant, a Grantiau Prynu, Cyfalaf a Phrosiect fel y'u datgelir yn nodyn 2. Talodd y Llyfrgell y symiau canlynol i Lywodraeth Cymru: -

- Llog a ad-dalwyd - £2,614 (2015/16: £8,529)
- Cost recriwtio ymddiriedolwyr - £3,259 (2015/16: £3,866)

Mae Mr Huw Williams, aelod o'r Bwrdd, yn bartner yn Geldards LLP, sef cynghorwyr cyfreithiol enwebedig y Llyfrgell. Rhoddwyd taliadau gwerth £21,662 (2015/16: £69,947) i Geldards LLP yn ystod 2016/17 am wasanaethau a roddwyd.

Mae Robert Gray, oedd yn aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio'r Llyfrgell tan Hydref 2015, yn bennaeth Francis Gray, cwmni a ddarparodd gymorth i'r Llyfrgell gyda chyfrifon diwedd y flwyddyn ariannol 2014/15 ac a dderbyniodd ffioedd o £dim yn 2016/17 (2015/16: £8,537).

Mae trafodion a balansau'r Cynllun Pensiwn yn cael eu datgelu yn nodiadau 8 a 13.

Ar 31 Mawrth 2017, roedd gan y Llyfrgell ddyledwyr a chredydwyr cyfunol gyda chyrrff eraill sy'n derbyn cyllid gan y Llywodraeth fel a ganlyn:

	Dyledwyr	Credydwyr: llai na 1 mlynedd	Credydwyr: mwy na 1 mlynedd
	£000	£000	£000
Cyrrff Llywodraeth Ganolog	20	25	25
Cyrrff Llywodraeth Leol	-	3	-
Cyrrff eraill	1,161	500	-
Cyfanswm	1,181	556	25

## 20. ASEDAU A RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL- DATGELIAD RISG

Mae'r fantolen yn dangos y Banc yng nghyswllt asedau cyfredol a rhwymedigaethau cyfredol. Mae sefyllfa'r llyfr arian yn dangos bod un cyfrif mewn dyled o £0.026m, tra bo gan y cyfrifon eraill £1.1m (2015/16: £1.2m) mewn llaw. Nid oedd gan y Llyfrgell orddrafft banc ar ddiwedd y flwyddyn, ac mae hyn yn adlewyrchu nifer o drafodion nad oedd wedi'u prosesu gan y Banc eto, megis sicciau ac adneuron heb eu clirio.

Nid oes gan y Llyfrgell fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar grantiau adrannol ar gyfer ei gofynion arian ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Datgelir yr unig adnau o bwys yn nodyn 11, ac mae'r holl asedau a rhwymedigaethau o bwys mewn sterling, ac felly nid yw'n agored i risg yn ymwneud â'r gyfradd llog neu ag arian cyfred. Yn 2016/17, daeth £10.838m neu 88% o incwm cyfunol y Llyfrgell gan Lywodraeth Cymru (2015/16 £11.618m neu 86%). Daw'r gweddill, £1.41m neu 12% (2015/16 £1.833m neu 14%) o incwm o gronfeydd preifat y Llyfrgell (nodyn 15b), o weithgareddau masnach (nodyn 4) ac o grantiau gan gyrff eraill, fel y datgelir yn Nodyn 3 y cyfrifon hyn.

Mae'r Llyfrgell yn agored i risg y farchnad ac mae hyn yn cael ei reoli drwy arallgyfeirio'r buddsoddiad, yn ogystal â gosod amcanion i Reolwr y Gronfa ynglŷn ac archwaeth risg a buddsoddiad.

## 21. PRYDLESI

Ni wnaeth y Llyfrgell unrhyw daliadau prydles yn ystod y flwyddyn na'r flwyddyn flaenorol.

## 22. COSTAU PENSIWN

Mae gan y Llyfrgell gynllun pensiwn buddion diffiniedig gyda buddion yn cronni ar gyfradd o 1/80<sup>fed</sup> o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Cafwyd y prisiad actiwaraid llawn diwethaf ar 31 Mawrth 2016 ac aseswyd bod y Cynllun wedi cyrraedd pwynt lle mae wedi'i ariannu i 99% gyda diffyg o £370,000.

Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017, bu'r Llyfrgell yn cyfrannu at y Cynllun ar gyfradd o 26.6% o gyflogau pensiynadwy a bydd y gyfradd hon yn cael ei defnyddio am ran o 2017/18 ac yn debygol o gynyddu i 27.2% o gyflog pensiynadwy. Mae'n debygol y bydd cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer 2017/18 yn £1.5 miliwn.

### (a) Datblygu Sefyllfa'r Fantolen Net

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£m	£m
Gwerth teg yr asedau (22b)	68.31	56.47
Gwerth actiwaraid rhwymedigaethau'r cynllun (22c)	77.38	63.88
(Rhwymedigaeth) pensiwn sydd yn y fantolen	(9.07)	(7.41)

### (b) Newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun

	Y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017	Y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2016
	£m	£m
Asedau'r cynllun ar ddechrau'r flwyddyn	56.47	56.90
Budd a dalwyd o asedau'r cynllun	(2.01)	(2.17)
Cyfraniadau'r cyflogwr	1.51	1.59
Cyfraniadau'r aelodau	-	-
Costau gweinyddol	(0.12)	(0.10)
Incwm llog ar Asedau'r Cynllun	2.02	2.01
Elw ar asedau'r cynllun sy'n fwy/(llai) na'r gyfradd ddisgownt	10.44	(1.76)
Asedau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn - 22a	68.31	56.47

### (c) Dadansoddiad o'r newidiadau yn y Rhwymedigaethau Buddion Diffiniedig (DBO)

	Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017	Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2016
	£m	£m
Rhwymedigaethau'r cynllun ar ddechrau'r flwyddyn	63.88	62.55
Cost llog ar y DBO	2.26	2.18
Effaith gwasanaethau'r gweithwyr yn y cyfnod cyfredol	1.93	2.01
Cyfraniadau'r aelodau	-	-
Budd a dalwyd o asedau'r cynllun	(2.01)	(2.17)
Ailfesur y DBO/newid tybiaethau	11.32	(0.69)
Rhwymedigaethau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn - 22a	77.38	63.88

### (d) Symiau a gofnodwyd ar y SOFA (Cyfanswm gwariant)

	Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017	Y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2016
	£m	£m
Effaith gwasanaethau'r gweithwyr yn y cyfnod cyfredol	1.93	2.01
Llog net ar (ased)/rhwymedigaeth buddion diffiniedig net	0.24	0.17
Cost y buddion diffiniedig a gydnabyddir yn P&L	2.17	2.18
Costau gweinyddu yn ystod y cyfnod	0.12	0.1
Costau buddion terfynu	-	-
<b>Cyfanswm y gost a gydnabyddir yn y SOFA</b>	<b>2.29</b>	<b>2.28</b>

**(e) (Colledion)/Enillion Actiwaraid a gofnodwyd yn y SOFA**

	Y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017	Y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2016
	£m	£m
Elw ar asedau'r cynllun sy'n (fwy) / llai na'r gyfradd ddisgownt - 22b	(10.44)	1.76
(Elw)/colled actiwaraid sy'n codi yn ystod y cyfnod - 22c	11.32	(0.69)
<b>Cyfanswm (enillion) /colledion actiwaraid a gydnabyddir yn y cronfeydd wrth gefn</b>	<b>0.88</b>	<b>1.07</b>

**(f) Cyfanswm cost y buddion diffiniedig**

	Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017	Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2016
	£m	£m
Cyfanswm y gost a gydnabyddir yn SOFA - 22(d)	2.29	2.28
Effaith yr ailfesur a gydnabyddir yn y cronfeydd wrth gefn 22(e)	0.88	1.07
<b>Cost y buddion diffiniedig</b>	<b>3.17</b>	<b>3.35</b>

**(g) Cysoni Sefyllfa'r Fantolen Net**

	Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017	Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2016
	£m	£m
(Atebolrwydd) diffiniedig net ar ddechrau'r flwyddyn	(7.41)	(5.65)
Effaith gwasanaethau'r gweithwyr yn y cyfnod cyfredol (22c)	(1.93)	(2.01)
Llog net ar (ased) / rhwymedigaeth buddion diffiniedig net	(0.24)	(0.17)
Effaith yr ailfesur a gydnabyddir yn y cronfeydd wrth gefn 22(e)	(0.88)	(1.07)
Cyfraniadau'r cyflogwr 22b	1.51	1.59
Costau gweinyddol	(0.12)	(0.10)
<b>Rhwymedigaethau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn - 22a</b>	<b>(9.07)</b>	<b>(7.41)</b>

**(h) Gwerth Asedau ar y Farchnad a Chanran Cyfanswm Asedau'r Cynllun**

	31 Mawrth 2017		31 Mawrth 2016	
	£m	%	£m	%
Ecwitïau	24.7	36.1	19.5	34.6
Bondiau	37.3	54.4	31.0	54.8
Eiddo ac arall	6.5	9.5	6.0	10.6
<b>Cyfanswm gwerth yr asedau</b>	<b>68.5</b>		<b>56.5</b>	

**(i) Tybiaethau Ariannol**

Mae'r tybiaethau ariannol a wnaed er mwyn cyfrifo gofynion datgelu FRS102 fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	% y flwyddyn	% y flwyddyn
Chwyddiant Prisiau	2.55	2.2
Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau	2.55	3.7
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau sy'n cael eu talu*	2.55	2.2
Cyfradd y cynnydd ar gyfer pensiynwyr sydd wedi gohirio*	2.55	2.2
<b>Cyfradd ddisgownt**</b>	<b>2.80</b>	<b>3.6</b>

\*\*yn fwy nag unrhyw elfen GMP (Isafswm Pensiwn Gwarantedig)

\*\*wedi'i ragnodi gan Drysorlys EM

Mae'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir ar gyfer datgeliadau FRS102 yn wahanol i'r un a ddefnyddiwyd gan yr Actiwari ar gyfer yr asesiad ariannol mwyaf diweddar o'r Cynllun ar 31 Mawrth 2016. Bryd hynny, aseswyd bod y Cynllun wedi'i ariannu'n llawn. Bydd y gofyniad i ddefnyddio cyfradd ddisgownt y Trysorlys ar gyfer y datgeliad FRS102 yn golygu y bydd sefyllfa ariannol y Cynllun yn cael ei hasesu'n wahanol dan y mesur hwn o'i gymharu â'r dull a ddefnyddir ym mhriiad actiwaraid ffurfiol y Cynllun.

**23. EITEMAU MATEROL**

Yn 2016-17, nid yw'r gwerthoedd yn cael eu hystyried yn ddigon materol i gael eu datgelu ar wyneb y SOFA, ond am resymau cymharol, mae esboniadau yn cael eu darparu am resymau ar gyfer datgelu flwyddyn flaenorol ynghyd a diweddariad ar gynnydd: -

**A. FFFIOEDD YN YMWNEUD Â'R TÂN AR 26 EBRILL 2013**

Talodd y Llyfrgell £15K (2015/16: £19K) mewn costau cyfreithiol i Geldards yn y flwyddyn oedd yn ymwneud ac achos cyfreithiol yn dilyn y tân yn Ebrill 2013.

**A. SETLIAD**

Ni dalwyd unrhyw daliadau setliad yn y flwyddyn. Yn 2015-16, talwyd y taliadau setliad canlynol a oedd wedi cael eu cadarnhau gan Lywodraeth Cymru: -

- Talwyd setliad o £22,500 i'r Athro A G Jones ym mis Tachwedd 2015 yn hytrach na chyfnod rhybudd o 3 mis.
- Talodd y Llyfrgell £7,500 hefyd fel setliad i gyn-aelod o staff yn dilyn hawliad am ddamwain a ddigwyddodd yn y gwaith. Cynhwysodd y Llyfrgell amcangyfrif o £15,000 ychwanegol tuag at gostau cyfreithiol yr ymgeisydd yng nghyfrifon 2015-16, ac fe dalwyd £22,677 yn 2016-17 (felly cost o £7,677 o fewn y cyfrifon eleni).

**C. TÂL DISWYDDO**

Ni thalwyd unrhyw daliadau diswyddo gwirfoddol yn y cyfnod. Roedd y taliad o £77,724 yn ymwneud â 4 aelod o staff wedi gadael yn 2015-16.

**D TRYDYDD ADEILAD Y LLYFRGELL**

Mae'r Llyfrgell wedi talu taliadau olaf yn ymwneud gyda'r gwaith ar y Trydydd Adeilad o £24,061 (2015-16; £439,541). Ni chafodd y gwariant yma ei gapitaleiddio gan nad oedd strwythur yr adeilad yn cael ei wella o ganlyniad i'r gwaith adeiladu.

**24. YMRWYMIADAU CYFALAF**

Ar ddyddiad y fantolen, mae'r ymrwymadau sy'n weddill fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£000	£000
Dan gytundeb - Swyddfa Trydydd Adeilad y Llyfrgell - To	-	15
Dan gytundeb - Swyddfa Trydydd Adeilad y Llyfrgell - Swyddfeydd	-	17
Cytundeb adeiladau – gwaith addasu ar gyfer y Comisiwn Brenhinol	64	360
	<b>64</b>	<b>392</b>

**25. DIGWYDDIADAU YN DILYN CREU'R FANTOLEN**

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau materol yn dilyn paratoi'r cyfrifon sydd angen eu datgelu yn y cyfrifon hyn.



**Ken Skates AC/AM**

**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**  
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-KS/0462/17

Rhodri Glyn Thomas  
Llywydd  
Llyfrgell Genedlaethol Cymru  
Aberystwyth  
Ceredigion SY23 3BU

1 Mawrth 2017

Annwyl Rhodri

### **Llythyr Cylch Gwaith Llyfrgell Genedlaethol Cymru 2017-18**

Rydym yn mynd ati yn y llythyr hwn i nodi'n cenhadaeth ar y cyd, a diben y cymorth grant i Lyfrgell Genedlaethol Cymru ar gyfer 2016-17.

Gan edrych yn ôl ar 2016-17, hoffwn eich llongyfarch ar ôl i'r Llyfrgell Genedlaethol gael cydnabyddiaeth ledled y DU am ennill Gwobr Gwirfoddoli'r Gymdeithas Archifau a Chofnodion ar gyfer 2016. Rwyf hefyd am gymeradwyo'ch cyfraniad i brosiect cyfrannu torfol Cynefin, sydd wedi rhoi rhan i nifer mor fawr o rith-wirfoddolwyr mewn gweithgareddau'n gysylltiedig â thirwedd unigryw Cymru. Rwyf yn falch hefyd fod y Llyfrgell yn parhau i gefnogi mentrau cenedlaethol pwysig, gan gynnwys yr arddangosfa *Antur ar bob tudalen* i gefnogi'r Flwyddyn Antur, a gweithgareddau thema sy'n gysylltiedig â choffáu Roald Dahl.

Gan edrych ymlaen at 2017-18, mae'r llythyr hwn yn tynnu sylw at nifer o flaenoriaethau yr hoffwn i'r Llyfrgell Genedlaethol eu mabwysiadu er mwyn sicrhau bod eich sefydliad yn parhau i ddarparu swyddogaethau diwylliannol pwysig i bobl Cymru mewn ffordd gynaliadwy.

Rwyf yn disgwyl i nodau'r Llyfrgell Genedlaethol gyd-fynd â pholisïau Llywodraeth Cymru at ddibenion y cyllid cymorth grant. Er hynny, rwyf yn cydnabod ac yn parchu statws elusennol y Llyfrgell a'i statws fel corff â Siarter Frenhinol, ynghyd â'r angen ichi weithredu'n annibynnol o ddydd i ddydd ac i lunio'ch polisïau a'ch cynlluniau busnes manwl eich hun. Rwyf yn disgwyl i'r berthynas rhyngom fod yn un sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch o'r ddwy ochr ac ar gyfathrebu mewn ffordd agored a gonest. Yn ymarferol, fy swyddogion fydd yn rhoi cymorth ac arweiniad i'r Llyfrgell Genedlaethol ar ran Llywodraeth Cymru.

Mewn cyd-destun pan fo cyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru yn crebachu, a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yn cystadlu â'i gilydd am gyllid, mae'n bwysicach nag erioed o'r blaen ein bod yn gallu darparu tystiolaeth i ddangos bod y cyllid a ddarperir ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol yn cynnig gwerth i'r cyhoedd. Mae angen i'n sefydliadau ymateb i'r heriau a osodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac i ddarparu gwasanaethau effeithlon ac uchel eu hansawdd sydd o fudd i bobl o bob cefndir ym mhob cwr o Gymru. Fel y pennir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol, bydd angen ichi ddarparu tystiolaeth am y cyfraniad y bydd y Llyfrgell yn ei wneud at gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol a'r dangosyddion perthnasol.

Rydym yn gyd-atebol am sicrhau bod yr arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi yn y Llyfrgell Genedlaethol yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd briodol a'i fod yn cael yr effaith orau bosibl. Er mwyn mesur effaith, gwerth ac effeithlonrwydd y Llyfrgell yn effeithiol, mae'n rhaid gosod targedau, casglu data a gwneud gwaith ymchwil. Rwyf yn gofyn ichi ddarparu tystiolaeth glir a rheolaidd am y cynnydd y bydd y Llyfrgell yn ei wneud o ran cyrraedd yr amcanion a'r targedau y byddwn wedi cytuno arnynt.

Rwyf yn edrych ymlaen at drafod y targedau yn eich Cynllun Gweithredol a sut yr ydych yn bwriadu eu mesur ac adrodd amdanynt yn rheolaidd; gan adrodd nid yn unig wrth fy swyddogion, ond hefyd wrth ddefnyddwyr a rhanddeiliaid y Llyfrgell Genedlaethol. **Dylech anfon fersiwn ddrafft o'r cynllun at fy swyddogion erbyn 6 Mawrth.** Dim ond pan fyddaf yn fodlon y bydd arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n briodol ac amcanion yn cael eu bodloni mewn ffordd gosteffeithiol y gellir rhyddhau'r arian grant. Unwaith y cytunir ar y Cynllun Gweithredol, byddaf mewn sefyllfa i ryddhau cyllid i'r Llyfrgell Genedlaethol ar gyfer 2017-18.

Mae'r blaenoriaethau yr wyf am eich gweld yn gweithredu arnynt yn y flwyddyn sydd i ddod (gan ddefnyddio'r cyllid cymorth grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru) yn cael eu nodi isod:

### **Sefydliad cenedlaethol sy'n ganolog i fywyd Cymru**

Er mwyn i bobl Cymru gael budd o'n sefydliadau treftadaeth ddiwylliannol, mae angen iddynt fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n cael ei gynnig a manteisio arno. Mae nifer o ffactorau'n allweddol er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn cael profiad da, gan gynnwys: pwyntiau mynediad a phyrth deniadol i gyfleusterau ffisegol a digidol; ffyrdd greddfoll o we-lywio er mwyn helpu defnyddwyr i ddod o hyd i wasanaethau ac adnoddau a'u defnyddio; a chymorth cyfeillgar oddi wrth staff parod eu cymwynas.

Rwyf yn disgwyl i'ch Cynllun Gweithredol gynnwys amcanion i:

- hyrwyddo'ch gwasanaethau a'ch adnoddau a'u marchnata'n effeithiol er mwyn denu diddordeb cynulleidfaoedd newydd ac ehangach i wneud mwy o ddefnydd ohonynt
- gwella pwyntiau mynediad a rhoi hyfforddiant priodol i staff sy'n ymwneud â'r cyhoedd
- cyrraedd a chynnal safonau uchel o wasanaeth i gwsmeriaid
- sicrhau bod gwasanaethau'r Llyfrgell Genedlaethol ar gael i gymunedau lleol ym mhob cwr o Gymru

Dylai'r ffyrdd o fesur perfformiad gynnwys:

- monitro sylw yn y cyfryngau, y gynulleidfa a gyrhaeddir, a gwerthuso effaith gwaith hyrwyddo a wneir gan y Llyfrgell Genedlaethol
- cynyddu'r defnydd cyffredinol a wneir o'r Llyfrgell ac annog cwsmeriaid i ymweld â hi yn y cnawd ac ar y we dro ar ôl tro ac i'w defnyddio'n rheolaidd
- monitro ac ymateb i adborth a roddir gan ddefnyddwyr, a gwella lefelau boddhad ymhlith defnyddwyr ac ymwelwyr
- monitro faint sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau a gynhelir gan y Llyfrgell, a sicrhau cynnydd yn y niferoedd hynny, gan fanylu ar faint o grwpiau ac unigolion yn y cynulleidfaoedd targed allweddol sy'n cymryd rhan ynddynt

## **Cof ein cenedl**

Y Llyfrgell Genedlaethol sy'n gyfrifol am ofalu am ein casgliad cenedlaethol a'i ddatblygu, ac am drefnu bod yr adnodd amlgyfrwng cyfoethog ac amrywiol hwnnw ar gael i gynulleidfa yng Nghymru a thu hwnt. Mae cynnal cyfrifoldebau statudol a chyrraedd a rhagori ar safonau proffesiynol yn allweddol er mwyn dangos bod y Llyfrgell Genedlaethol yn llwyddo yn y maes yma . Mae gan y Llyfrgell rôl bwysig i'w chwarae hefyd o ran sefydlu ac arwain amryfal bartneriaethau sy'n ychwanegu gwerth i'r gymuned archifau a llyfrgelloedd ehangach yng Nghymru er budd defnyddwyr.

Mae gan y Llyfrgell ddyletswyddau statudol a rhwymedigaethau penodol mewn perthynas â mathau penodol o ddeunyddiau casglu o dan y darnau isod o ddeddfwriaeth y DU:

- Deddf Llyfrgelloedd Adneuo Cyhoeddus 2003 a Rheoliadau Llyfrgelloedd Adneuo Cyhoeddus (Gweithiau Di-brint) 2013
- Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958, ac mae ganddi gyfrifoldebau hefyd mewn perthynas â dosbarthiadau rheoledig eraill o gofnodion.

Rwyf yn disgwyl i'r Llyfrgell gadw ei Hachrediad Gwasanaeth Archifau a'i statws fel man adneuo o dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958.

## **Sefydliadau cynhwysol**

Gall ein sefydliadau treftadaeth ddiwylliannol helpu pobl o bob cefndir i gymryd rhan ym mywyd diwylliannol Cymru ac i gael budd ohono.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hynny, byddwn yn disgwyl i'r Llyfrgell Genedlaethol:

- ddatblygu cynllun estyn allan, gan gynnwys cydweithio â rhaglen Cyfuno
- datblygu cynlluniau i weithio'n agos gyda sefydliadau priodol yng nghyd-destun eich cynllun gwirfoddoli, ac annog pobl i wella ansawdd eu bywydau a'u sgiliau
- defnyddio'r arbenigedd penodol mewn sydd gennych mewn darpariaeth ddwyieithog i roi cymorth i gymunedau Cymraeg eu hiaith yn Sir Gaerfyrddin ac yng Ngwynedd drwy raglen Cyfuno

Dylai'r ffyrdd o fesur llwyddiant gynnwys:

- mwy o ymweliadau a defnydd gan bobl o gefndiroedd amrywiol neu ddifreintiedig
- recriwtio rhagor o staff o gefndiroedd amrywiol
- mwy o wirfoddolwyr, a mwy o amser yn cael ei gyfrannu gan wirfoddolwyr, a mwy o wirfoddolwyr o gefndiroedd amrywiol neu ddifreintiedig

Byddaf, wrth gwrs, yn disgwyl i'r Llyfrgell Genedlaethol barhau i sicrhau bod y cyfraniad a wneir gan wirfoddolwyr yn ychwanegu gwerth at y swyddi cyflogedig presennol, ac ni ddefnyddir i lenwi swyddi gwag yn y sefydliad.

### **Cenedl sy'n troi ei golygon tuag allan**

Mae angen i'r dreftadaeth ddiwylliannol arbennig ac unigryw sydd gan Gymru gael ei gweld yng ngweddill y DU ac yn y byd ehangach.

Dylai eich Cynllun Gweithredol gynnwys amcanion i:

- gefnogi gweithgareddau twristiaeth ddiwylliannol a gweithgareddau hyrwyddo (yn enwedig y Flwyddyn Chwedlau a Blwyddyn y Môr) gan Croeso Cymru
- sicrhau bod ein casgliadau cenedlaethol yn fwy gweladwy ar-lein drwy'r bartneriaeth sydd gennych eisoes gyda Wikimedia UK, a darparu gwasanaethau ac adnoddau digidol deniadol a hawdd eu defnyddio.

Bydd y ffyrdd o fesur cynnydd yn cynnwys:

- dadansoddiad o effaith digwyddiadau, gweithgareddau ac arddangosfeydd allweddol
- monitro'r defnydd a wneir o wasanaethau ac adnoddau ar-lein sy'n cael eu cefnogi gan y Llyfrgell Genedlaethol

### **Ymgysylltiad digidol**

Mae technoleg ddigidol yn chwyldroi'r ffordd y mae pobl yn creu ac yn defnyddio deunydd diwylliannol ac yn ei addasu at ddibenion gwahanol.

Yn benodol, byddwn yn disgwyl i'ch Cynllun Gweithredol gynnwys amcanion i:

- arwain a chydgyssylltu ymdrechion i gasglu ac i gadw deunydd 'digidol anedig' ac i ddatblygu polisi cenedlaethol ar gyfer cadwraeth ddigidol
- cydweithio â sefydliadau treftadaeth ddiwylliannol eraill i sefydlu platfform dwyieithog newydd, a fydd yn cael ei deilwra'n benodol, ar gyfer gweithgareddau cyfrannu torfol (i'w defnyddio ar gyfer prosiectau rhith-wirfoddoli)
- sicrhau bod mwy o ddeunydd treftadaeth ddiwylliannol o ansawdd uchel ar gael ar-lein drwy ddigideiddio'r casgliadau cenedlaethol a thrwy gydweithio â phartneriaid eraill ar brosiectau
- cyfrannu at gyflawni cynllun gweithredu Casgliad y Werin Cymru ar gyfer 2017-18

Bydd y ffyrdd o fesur yn cynnwys:

- mwy o rith-ymwelwyr yn cael gafael ar adnoddau a gwasanaethau ar-lein ac yn manteisio arnynt
- dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol a maint y rhyngweithio
- rhith-wirfoddoli ac ymgysylltu'n uniongyrchol â'r casgliadau cenedlaethol drwy gyfrwng technoleg ddigidol

### **Sefydliadau cynaliadwy**

Mae polisi cyni Llywodraeth y DU wedi rhoi cryn straen ar gyllidebau yn y sector treftadaeth dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r pwysau'n debygol o gynyddu yn y dyfodol. Er mwyn sicrhau bod y Llyfrgell Genedlaethol yn parhau'n hyfyw a'i bod yn gallu mynd ati'n barhaus i wella gwasanaethau, byddwn yn disgwyl iddi ychwanegu at y cyllid cymorth grant y mae'n ei gael oddi wrth Lywodraeth Cymru drwy sicrhau cynnydd sylweddol ym maint y cyllid a ddenir o ffynonellau eraill.

Bydd yr amcanion yn cynnwys:

- sicrhau mwy o gyllid drwy gydweithio â phartneriaid eraill ar brosiectau ehangach (e.e. partneriaid yn y sector treftadaeth ddiwylliannol ac yn y sector addysg uwch)
- mwy o weithgareddau codi arian (rhoddion elusennol)
- mwy o weithgareddau newydd sy'n ychwanegu gwerth a chyfleoedd masnachol sy'n creu incwm

Byddwn yn disgwyl i'ch Cynllun Gweithredol gynnwys targedau ar gyfer cynyddu cyllid.

### **Cydweithio ac Arweinyddiaeth**

Mae ein sefydliadau treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys y Llyfrgell Genedlaethol, yn gryfach pan fyddant yn gweithio gyda'i gilydd. Byddwn yn disgwyl gweld amcanion o ran cydweithio yn eich cynllun gweithredol, gan gynnwys:

- cefnogi ymchwil a dysgu ffurfiol drwy bartneriaethau â chyrff yn y sector addysg uwch ac addysg bellach
- cydweithio strategol a phartneriaethau gyda'r sector treftadaeth ddiwylliannol, gyda sefydliadau cenedlaethol eraill, a chyda llyfrgelloedd sydd heb fod yn rhai cenedlaethol, a gwasanaethau archifau yng Nghymru.
- gweithgareddau sy'n cefnogi mentrau penodol, gan gynnwys rhaglen *Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914 – 1918* a rhaglen Cyfuno

### **Datblygu'r gweithlu**

Gall sgiliau, angerdd ac arbenigedd y bobl sy'n gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol ddod â'n treftadaeth yn fyw i'r un graddau'n union â'n hasedau diwylliannol ffisegol. Mae'n amlwg ei bod yn bwysig bod gan y Llyfrgell weithlu sy'n cael ei barchu a'i symbylu ar bob lefel. Mae hynny'n gryn her i nifer o sefydliadau sydd wedi mynd ati i ailstrwythuro'n helaeth a, chan mai ni yw prif gyllidwr y Llyfrgell, nid yw ond yn iawn ein bod yn gweithio gyda chi i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau yn hynny o beth.

Yn benodol, byddwn yn disgwyl i'r Llyfrgell Genedlaethol:

- weithio tuag at gysoni eich polisïau allweddol ym maes adnoddau dynol â'r polisïau sydd gan Lywodraeth Cymru, gan ymgynghori â'r undebau llafur cydnabyddedig wrth wneud hynny
- cynnal asesiad cychwynnol o delerau ac amodau a thâl staff y Llyfrgell Genedlaethol a goblygiadau eu cysoni â rhai Lywodraeth Cymru
- parhau i wella'r berthynas rhwng Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, y rheolwyr, y staff a chynrychiolwyr yr undebau, a sicrhau bod cytundeb ffurfiol yn ei le rhwng y Llyfrgell a'r undebau sy'n nodi egwyddorion gweithio mewn partneriaeth a'r gweithdrefnau ar gyfer negodi, ymgynghori a chyfathrebu
- sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant priodol er mwyn iddynt fedru darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, a sicrhau eich bod yn nodi unrhyw fylchau o ran sgiliau (gan gynnwys sgiliau arbenigol) ac yn mynd i'r afael â hwy mewn ffordd strategol (gan ymgynghori â'ch undebau llafur cydnabyddedig) yn eich gwaith i ddatblygu'r gweithlu

Mae arolygon ymhlith staff yn sail i bolisïau ac yn hanfodol er mwyn mesur morâl y staff a pha mor effeithiol yw rheolwyr. Byddwn yn disgwyl ichi gynnal arolygon o'r fath yn rheolaidd

ac yna gweithredu mewn ymateb i'r canfyddiadau. Rwyf am ofyn ichi hysbysu fy swyddogion am ganlyniadau'r arolygon a gynhelir ymhlith y staff ac am y dadansoddiadau o'r tueddiadau a ddaw i'r amlwg ynddynt, ac i ofyn iddynt am gyngor pe bai hynny'n ddefnyddiol.

Diolch ichi am gyfraniad y Llyfrgell Genedlaethol i waith Grŵp Llywio Cymru Hanesyddol. Byddaf yn cyhoeddi fy ymateb i adroddiad y Grŵp yn y man. Rwyf yn edrych ymlaen at gydweithio â'r Llyfrgell Genedlaethol wrth inni fwrw ymlaen â'r agenda bwysig hon.

Yn gywir



**Ken Skates AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith  
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

## Atodiad 1

### Cymorth ariannol:

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r Cymorth Grant isod i'r Llyfrgell Genedlaethol yn 2017-18 i gyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yn y llythyr hwn:

<b>Refeniw</b>	<b>Cynlluniau 2017-18 £</b>
Costau Rhedeg sylfaenol (NET)	9,261,000
Cyllid refeniw ychwanegol ar gyfer 2017-18 (3.5%):	324,000
<b>Cyfanswm NET</b>	<b>9,585,000</b>

<b>Nid arian parod</b>	<b>Cynlluniau 2017-18 £</b>
Dibrisiant*	1,250,000

*\*Mae dibrisiant yn eitem nad yw'n arian parod ac nid yw ar gael i'w dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn*

<b>Cyfalaf</b>	<b>Cynlluniau 2017-18 £</b>
Grant Prynu	200,000
Grant Seilwaith Digidol	105,000
Cyfalaf Cynnal a Chadw	8,000,000
<b>Cyfanswm</b>	<b>8,305,000</b>

<b>Cyfanswm Cymorth Grant 2017-18</b>	<b>£19,140,000</b>
---------------------------------------	--------------------

<b>Cyllid y cynllun Buddsoddi i Arbed</b>	<b>Cynlluniau 2017-18 £</b>
Buddsoddi i Arbed: Prosiect Effeithlonrwydd Ynni (ad-dalu cyfalaf)	-25,000

Cyllid ychwanegol nad yw'n Gymorth Grant a glustnodwyd eisoes er mwyn cefnogi gweithgareddau penodol:

	<b>Cynlluniau 2017-18 £</b>
Rhaglen Casgliad y Werin Cymru	I'w gadarnhau
Gweithgareddau Coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf (refeniw)	£20,000

### **Telerau ac Amodau'r Cymorth Grant:**

Mae'r cytundeb cyllido rhwng y Llyfrgell Genedlaethol a Llywodraeth Cymru (y ddogfen Fframwaith) yn nodi manylion y berthynas noddi a'r telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r cymorth grant y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i'r Llyfrgell Genedlaethol o dan Adran 61 o Ddeddf Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen Fframwaith hefyd yn nodi amryfal ofynion gweithredol ac yn cyfeirio at ganllawiau a pholisïau o eiddo'r llywodraeth y mae angen i'r Llyfrgell Genedlaethol gydymffurfio â hwy, yn ychwanegol at ei dyletswyddau a'i chyfrifoldebau ei hun fel corff sydd â Siarter, fel Elusen Gofrestredig, a sefydliad cyhoeddus yng Nghymru. Fel y nodir yn y Ddogfen Fframwaith, Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru (MALD) yw'r is-adran sy'n noddi'r Llyfrgell Genedlaethol ac sydd, drwy gynnal cyfarfodydd chwarterol, yn monitro'r cynnydd y mae'r Llyfrgell yn ei wneud yn unol â thargedau a cherrig milltir allweddol, a hefyd y cynnydd a'r gwariant ar brosiectau a gyllidir.

### **Rhaglen treftadaeth ddiigidol Casgliad y Werin Cymru:**

Gan fod y Llyfrgell Genedlaethol yn un o'r partneriaid cyflawni arweiniol ar gyfer rhaglen Casgliad y Werin Cymru, mae cyllid yn cael ei dyrannu iddi ar gyfer y rhaglen honno. Bydd y partneriaid cyflawni arweiniol yn cytuno'n flynyddol ar yr union ddyraniadau cyllid ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae'n bosibl y bydd y dyraniadau a roddir i'r partneriaid cyflawni arweiniol yn amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, gan ddibynnu ar anghenion a blaenoriaethau'r rhaglen.

Telir y grant ar yr amod y cydymffurfir â Dogfen Fframwaith y Llyfrgell Genedlaethol.



Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol  
Economy, Skills and Natural Resources Group

Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol • Deputy Permanent Secretary

Nick Ramsay AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd CF99 1NA

[SeneddPAC@Assembly.Wales](mailto:SeneddPAC@Assembly.Wales)



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

18 Hydref 2017

Annwyl Nick Ramsay

### Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Adolygiad o'r Adroddiad Llywodraethu

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 20 Chwefror 2017 ynghylch yr uchod a'm hatebion dyddiedig 20 Mawrth, rwyf bellach yn darparu ymateb llawn i'r broses gyfreithiol yn dilyn y tân gan bod y mater hwn bellach wedi dirwyn i ben.

Roeddech yn holi a oedd yn bosibl inni gydweithio â'r Llyfrgell Genedlaethol i fynd ar drywydd ymglyfreitha o bosibl yn dilyn y tân. Roedd y Llyfrgell yn gweithio gyda'u cynghorwyr cyfreithiol ar y cychwyn ar yr ymchwiliad i'r tân, ac i benderfynu a oedd yn werth mynd ar ôl hawliadau yn erbyn unrhyw drydydd parti. Yna dywedwyd wrthym yn 2015 eu bod wedi cyrraedd pwynt ble y byddai angen cyllid ychwanegol arnynt er mwyn mynd ar ôl yr hawliadau hyn ymhellach. Ers hynny rydym wedi cydweithio â'r Llyfrgell a'u cynghorwyr cyfreithiol ar y materion hyn. Bu imi gymeradwyo gwariant ar ffioedd cyfreithiol o hyd at £57,000 am y gwaith hwn, i fynd ar ôl hawliadau posibl yn erbyn tri parti a oedd yn rhan o'r broses, yn seiliedig ar strategaeth glir, a oedd yn ystyried barn y Cwnsler.

Rydym bellach wedi cyrraedd pwynt ble yr wyf wedi penderfynu i beidio â mynd ar ôl unrhyw un o'r hawliadau posibl hyn ymhellach, yn seiliedig ar ddadansoddiad ym mhob achos o'r dadleuon cyfreithiol, y costau ychwanegol fyddai hyn yn ei olygu, a'r rhagolygon o ran bod yn llwyddiannus â'r hawliadau. Rwyf felly wedi cytuno i roi'r gorau i fynd ar ôl unrhyw hawliadau posibl, a gallaf hysbysu'r Pwyllgor bod y broses gyfreithiol wedi ei chwblhau.

Cyfanswm y costau cyfreithiol oedd oddeutu £36,000.

Yn gywir

James Price



BUDDSODDWYR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE

Canolfan QED • QED Centre  
Y Brif Rodfa • Main Avenue  
Trefforest • Treforest  
Cardiff, CF11 3YR

Ffôn • Tel 0300 025 6646  
[james.price@wales.gsi.gov.uk](mailto:james.price@wales.gsi.gov.uk)  
Gwefan • website: [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk)

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan  
Cardiff / Caerdydd  
CF11 9LJ

Tel / Ffôn: 029 2032 0500

Fax / Ffacs: 029 2032 0600

Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660

[info@audit.wales](mailto:info@audit.wales) / [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

[www.audit.wales](http://www.audit.wales) / [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Mr Nick Ramsey AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd CF99 1NA

**Cyfeirnod:** HVT/2759/caf  
**Dyddiad cyflwyno:** 25 Hydref 2017

*Annyl Nick*

## Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Adolygiad Llywodraethu

Ar 30 Ionawr 2017, trafododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pwyllgor) yn gryno fy Adolygiad Llywodraethu yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru (y Llyfrgell), a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016. Roedd fy adroddiad yn cynnwys 12 o argymhellion; cyfeiriwyd deg o'r rhain at Ymddiriedolwyr a rheolwyr y Llyfrgell, a chyfeiriwyd dau ohonynt at Lywodraeth Cymru.

Yn fy mriiff i'r Pwyllgor, dywedais y byddai staff Swyddfa Archwilio Cymru yn olrhain cynnydd y Llyfrgell o ran rhoi ei chynllun gweithredu ar waith mewn ymateb i fy argymhellion. Cytunodd y Pwyllgor i gynnwys y Llyfrgell yn rhan o'i waith 'craffu ar gyfrifon' yn ystod hydref 2017, gan roi cyfle i'r Pwyllgor ailystyried y cynnydd cyffredinol sy'n cael ei wneud mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn fy adroddiad.

Mae'r Atodiad i'r llythyr hwn yn crynhoi fy asesiad o'r cynnydd o'i gymharu â'r 12 o argymhellion yn fy adroddiad. Mae'r cynnydd wedi bod yn dda yn y rhan fwyaf o'r argymhellion, yn enwedig y rhai hynny sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd a thryloywder y Bwrdd, a gwella lefelau ffydd a chydweithredu rhwng rheolwyr a staff. Nid yw'r Llyfrgell wedi ymdrin yn llwyr â fy argymhellion o ran cynllunio gweithlu a chynllunio'r broses o reoli asedau, ond mae'r gwaith ar y gweill. Ar y cyfan, mae'r modd cadarnhaol a systematig y mae'r Llyfrgell wedi ymateb i'r argymhellion yn arwydd o'r gwelliannau sylweddol yn ei threfniadau llywodraethu a'i chyfathrebu mewnol yn ystod y 18 mis diwethaf.

Adroddais fis Rhagfyr diwethaf fod agweddau ar drefniadau ariannu cyfredol Llywodraeth Cymru yn cyfyngu ar allu'r Llyfrgell i gynllunio a rheoli ei darpariaeth gwasanaethau yn y tymor canolig. Yn fy adroddiad nodais fod angen i'r Llyfrgell ailasesu ystod a graddfa'r gwasanaethau y mae'n eu darparu a'r safonau ansawdd y mae'n ceisio eu cyflawni mewn ymateb i ostyngiadau mewn cyllid a staff. Roedd y Cymorth Grant ar gyfer 2017-18 yn cynnwys cyllid referniw ychwanegol o £324,000 (3.5% o'r costau gweithredu sylfaenol). Bydd y Llyfrgell hefyd yn cael lefel sylweddol o fuddsoddiad cyfalaf rhwng 2017-18 a 2019-20, a fydd yn caniatáu iddi fynd i'r afael â rhai o broblemau iechyd a diogelwch

mwyaf brys yr adeilad. Mae'r Llyfrgell wedi parhau i gynnig ystod lawn o wasanaethau. Er hynny, mae gostyngiadau staff wedi parhau, ond ar gyfradd arafach nag a fu. Hyd yn hyn, nid yw'r Llyfrgell wedi cymryd camau amiwg i fynd i'r afael â'r cwestiynau anodd yn ei chynlluniau strategol, sy'n ymwneud â pha wasanaethau craidd y gallai fod angen iddi eu lleihau neu eu dirwyn i ben yn y dyfodol os bydd lefelau Cymorth Grant yn gostwng.

Fodd bynnag, mae'r Llyfrgell o reidwydd yn rhagweithiol o ran chwilio am gyllid grant allanol. Mae dyfarniad cyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri i letya Archif y BBC, er enghraifft, yn cynrychioli llwyddiant sylweddol diweddar yn hynny o beth. Mae'r newido gynllun gweithredu blynyddol i gynllun pedair blynedd, i'w gyfddyddio'n flynyddol er mwyn adlewyrchu Llythyr Gorchwyl Llywodraeth Cymru, yn fuddiol gan ei fod yn rhoi hyblygrwydd i'r Llyfrgell ail-flaenoriaethu ac addasu er mwyn cyflawni datblygiadau o'r fath, a'u cyfocchri gymaint â phosibl â ffrydiau gwaith presennol. Er hyn, mae cynaliadwyedd y gwasanaethau craidd y mae'n ofynnol i'r Llyfrgell eu darparu dan ei Siarter Frenhinol yn parhau i fod yn risg sylweddol.

*Ta gyw i'm*



**HUW VAUGHAN THOMAS**  
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

## Atodiad

### Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Adolygiad Llywodraethu

#### Cynnydd o'i gymharu â'r argymhellion

Argymhelliad	Cynnydd
<p>A1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro ei sefyllfa mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• dylai fod mwy o eglurder ynghylch trefniadau yswiriant y Llyfrgell; a</li><li>• dylai'r trefniadau yswiriant hynny gael eu hadolygu.</li></ul>	<p><b>Gweithredwyd</b></p> <p>Gyda chymorth ariannol Llywodraeth Cymru, aeth y Llyfrgell i'r afael â chanlyniadau uniongyrchol y tân yn 2013. Fodd bynnag, wrth i ni gynnal ein hadolygiad cychwynnol, roedd y trafodaethau yn parhau ynghylch a allai'r Llyfrgell gymryd camau cyfreithiol llwyddiannus yn erbyn contractwr er mwyn adennill rhywfaint o'r gwariant a ysgwyddwyd. Wrth Graffu ar Gyfrifon 2014-15, mynegodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru y farn bod, 'y tân yn 2013 yn codi cwestiynau am drefniadau yswiriant y Llyfrgell Genedlaethol.' Argymhellodd y Pwyllgor (Argymhelliad 3) y dylai trefniadau yswiriant y Llyfrgell, 'gael eu hadolygu ar frys i sicrhau bod y trefniadau yswiriant yn y dyfodol yn gost effeithiol a'u bod yn gostwng y colledion i'r pwrs cyhoeddus cymaint â phosibl' ac (Argymhelliad 4) bod 'angen mwy o eglurder ynghylch trefniadau yswiriant y Llyfrgell Genedlaethol ac rydym yn argymell y dylid trafod hyn â Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â hyn.'</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r costau a ysgwyddwyd wrth ystyried cymryd camau cyfreithiol yn erbyn partion eraill ynghylch y tân yn 2013. Mae'r broses gyfreithiol hon wedi dod i ben erbyn hyn.</p> <p>Hefyd, mae'r Llyfrgell wedi adolygu ei threfniadau yswiriant ei hun a cheir mwy o eglurder yn eu cylch erbyn hyn. Yn benodol, mae'r Llyfrgell yn cryfhau ei threfniadau contractio i sicrhau bod gan bawb sy'n cyflenwi nwyddau, gwasanaethau a gwaith cyfalaf yswiriant priodol ar waith.</p> <p>Ar ôl ymgynghori â Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Elusennau, mae'r Llyfrgell wedi penderfynu trefnu ac ariannu yswiriant indemniad ymddiriedolwyr masnachol hefyd sy'n cwmpasu'r holl Ymddiriedolwyr, pa un a ydynt wedi'u cyflogi gan Lywodraeth Cymru neu gan y Llyfrgell.</p>

Argymhelliad	Cynnydd
<p>A2. Er mwyn cynyddu lefel dealltwriaeth y staff a'r Bwrdd o swyddogaethau ei gilydd, dylai'r Llyfrgell:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• greu cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i Ymddiriedolwyr a staff gyfarfod yn rheolaidd; a</li> <li>• sefydlu gweithdrefnau i sicrhau nad yw'r ymgysylltiad rhwng yr Ymddiriedolwyr a'r staff yn tanseilio strwythurau rheoli llinell y Llyfrgell.</li> </ul>	<p><b>Gweithredwyd</b></p> <p>Mae lefel dealltwriaeth y staff a'r Bwrdd o swyddogaethau ei gilydd yn cynyddu.</p> <p>Mae Ymddiriedolwyr yn ymgysylltu'n adeiladol â'r staff, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd. Er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfranogiad Ymddiriedolwyr mewn pwyllgorau a grwpiau ffurfiol sy'n cynnwys staff;</li> <li>• presenoldeb Ymddiriedolwyr mewn digwyddiadau yn y Llyfrgell;</li> <li>• sianeli cyfathrebu mewnol newydd sydd wedi eu cynllunio i godi proffil yr Ymddiriedolwyr, fel cyflwyno Bwletin y Bwrdd a phroffiliau'r Ymddiriedolwyr ar wefan y Llyfrgell.</li> </ul> <p>Mae'r Llywydd a'r Ymddiriedolwyr yn awyddus i gael rhagor o ymgysylltiad â'r staff pryd bynnag y bo hynny'n bosibl er mwyn i'r ddwy ochr fod â gwell dealltwriaeth o waith ei gilydd.</p> <p>I atal yr Ymddiriedolwyr rhag tanseilio strwythur rheoli llinell y Llyfrgell, mae'r Llyfrgell wedi diwygio ei Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol (sy'n cynnwys Cod Ymddygiad yr Ymddiriedolwyr), gan ehangu Rheoliadau'r Llyfrgell o ran y safonau ymddygiad a ddisgwylir o'r Ymddiriedolwyr. Hefyd, mae Ymddiriedolwyr newydd eu penodi yn dilyn rhaglen hyfforddiant sefydlu sy'n cwmpasu eu dyletswyddau fel Ymddiriedolwyr a'u swyddogaeth yng ngweithrediad a gwaith y Llyfrgell, ac fe'u cefnogir yn dda gan lawlyfr llywodraethu.</p>
<p>A3. Er mwyn gwella effeithiolrwydd ei gyfarfodydd, dylai'r Bwrdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• roi blaenoriaeth i'r eitemau hynny y mae angen gwneud penderfyniad arnynt wrth lunio ac amserlennu eitemau agenda;</li> <li>• canolbwyntio'r drafodaeth ar wneud penderfyniad pan fo angen penderfyniad o'r fath;</li> <li>• cofnodi penderfyniadau yn glir yn y cofnodion; a</li> <li>• sefydlu a chynnal cofnod o'r camau gweithredu, ac</li> </ul>	<p><b>Gweithredwyd</b></p> <p>Mae effeithiolrwydd cyfarfodydd y Bwrdd wedi gwella.</p> <p>Caiff cyfarfodydd y Bwrdd eu cynnal yn dda ac yn drefnus, a rhoddir blaenoriaeth i faterion y mae angen eu trafod a phenderfynu arnynt.</p> <p>Nodir penderfyniadau yn glir yn y cofnodion a nodir camau gweithredu a gaiff eu hadolygu ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd.</p>

Argymhelliad	Cynnydd
adolygu eu statws ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd.	
<p>A4. Er mwyn gwella ansawdd y broses o wneud penderfyniadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd, dylai'r Bwrdd sefydlu rhagor o bwyllgorau gyda chylch gorchwyl clir, a gallai eu gwaith gynnwys materion sy'n ymwneud â'r:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gweithlu, gan gynnwys cydnabyddiaeth ariannol y staff; ac</li> <li>• ystâd y Llyfrgell.</li> </ul>	<p><b>Gweithredwyd</b></p> <p>Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Llywodraethu a Pherfformiad wedi ystyried yr angen am ragor o bwyllgorau. Mae swyddogaeth y Pwyllgor Llywodraethu a Pherfformiad wedi ei sefydlu yn llawn, ac mae'r Bwrdd hefyd wedi creu y Pwyllgor Cynllunio Ariannol i gefnogi gwaith y Bwrdd. Mae gwaith y pwyllgorau yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i effeithiolrwydd y Bwrdd.</p> <p>Mae'r Bwrdd yn bwriadu sefydlu Panel Ystadau ac mae wedi dod i'r casgliad nad oes angen rhagor o bwyllgorau ar hyn o bryd.</p>
<p>A5. Er mwyn cynyddu lefel y ffydd a'r cydweithrediad rhwng y staff ac arweinwyr y Llyfrgell:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dylai'r tîm gweithredol ymgysylltu â'r Undebau Llafur wrth ystyried strwythur, cynnwys ac amledd un arolwg o ganfyddiadau staff, a cheisio cefnogaeth yr Undebau Llafur wrth annog yr holl staff i gymryd rhan; a</li> <li>• dylai canlyniadau arolygon staff yn y dyfodol gael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd.</li> </ul>	<p><b>Gweithredwyd</b></p> <p>Mae cyfathrebu ac ymgysylltiad mewnol yn y Llyfrgell wedi gwella yn fawr, gan adlewyrchu ymdrechion y Bwrdd, y rheolwyr a'r staff. Cyfrannodd hyn yn helaeth at gynyddu lefel y ffydd a'r cydweithrediad rhwng staff ac arweinwyr y Llyfrgell. Mae'r Llyfrgell yn cydnabod yr angen i barhau i ganolbwyntio ar ddatblygu cyfathrebu mewnol ymhellach.</p> <p>Er mwyn cadw'r gallu i gymharu arolygon â rhai blaenorol ac arolygon a gynhelir mewn cyrff cyhoeddus eraill, mae'r Llyfrgell a'r Undebau Llafur wedi dewis cynnal arolygon canfyddiadau ar wahân ar gyfer 2017.</p> <p>Yn y blynyddoedd blaenorol, ychydig iawn o gyfathrebu a fu rhwng y Weithrediaeth, yr Undebau Llafur ac, yn benodol, y Bwrdd ynghylch canlyniadau arolygon canfyddiadau staff.</p> <p>Erbyn hyn, mae'r Llyfrgell a'r Undebau Llafur wedi cytuno i gyflwyno dadansoddiad wedi'i gydgrynhoi o'r ddau arolwg i'r Bwrdd yn 2018. Mae hyn yn cynrychioli cam sylweddol ymlaen.</p>
<p>A6. Er mwyn cynyddu tryloywder cyfarfodydd y Bwrdd, dylai'r Llyfrgell gyhoeddi ar ei gwefan:</p>	<p><b>Gweithredwyd</b></p> <p>Mae tryloywder cyfarfodydd y Bwrdd wedi gwella.</p>

Argymhelliad	Cynnydd
<ul style="list-style-type: none"> <li>bapurau sy'n cefnogi eitemau agenda mewn sesiynau agored; a</li> <li>rhesymau cryno dros gefnogi'r penderfyniad i atal y cyhoedd rhag gweld yr eitemau hynny sydd i'w trafod mewn sesiynau caeedig.</li> </ul>	<p>Ynghyd â'r agendâu a'r cofnodion, mae'r Llyfrgell erbyn hyn yn cyhoeddi adroddiadau cyflwyno ar gyfer eitemau agenda ar ei gwefan cyn cyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r papurau cyflwyno yn amlinellu'r adroddiad llawn.</p> <p>Er na chaiff papurau ategol manwl pob eitem agenda eu cyhoeddi, mae'r Llyfrgell yn gweithredu yn unol â'i Rheoliadau diwygiedig. Rydym ni o'r farn bod lefel yr wybodaeth a gyhoeddir yn gymesur gan ei bod yn rhoi gwybodaeth ddigonol i'r cyhoedd am y materion a fydd yn cael eu trafod ac yn caniatáu iddynt chwilio am ragor o wybodaeth cyn y cyfarfod pe byddent yn dymuno gwneud hynny.</p> <p>Mae'r defnydd o sesiynau caeedig yn fwy prin nag yn y gorffennol, ac mae'r agendâu cyhoeddus yn nodi'r hyn a fydd yn cael ei drafod yn y sesiynau caeedig.</p>
<p>A7. Yn rhan o gynllunio ariannol yn y dyfodol, dylai'r Bwrdd ystyried sefydlu targedau ar gyfer terfyn uchaf ac isaf o ran balans cronfeydd wrth gefn preifat anghyfyngedig a nodi'n glir y rhesymau dros ei benderfyniad.</p>	<p><b>Gweithredwyd</b></p> <p>Mae'r Llyfrgell wedi cymeradwyo Polisi Buddsoddi Cronfeydd Wrth Gefn Preifat sy'n cynnwys terfyn uchaf ac isaf ar gyfer balans cronfeydd wrth gefn preifat anghyfyngedig. Mae'r polisi newydd yn rhoi digon o hyblygrwydd i'r Llyfrgell, ac ar yr un pryd, yn rhoi pwyntiau cyfeirio ar gyfer penderfyniadau ynghylch defnyddio cronfeydd wrth gefn preifat, a sail resymegol i gyfiawnhau lefel y cronfeydd wrth gefn a ddelir.</p>
<p>A8. Er mwyn cefnogi'r Llyfrgell i gyflawni ei dyletswydd statudol i gynllunio ar gyfer dyfodol cynaliadwy, dylai Llywodraeth Cymru ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>roi gwybod i'r Llyfrgell am ei dyraniad cyllid blynyddol ar y cyfle cynharaf yn y flwyddyn ariannol flaenorol; ac</li> <li>ailddechrau'r arfer o ddarparu cyllidebau dangosol i'r Llyfrgell pan fydd Llywodraeth y DU yn cadarnhau lefelau dangosol y cyllid i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.</li> </ul>	<p><b>Gweithredwyd yn rhannol</b></p> <p>Nodir ymateb Llywodraeth Cymru ar 2 Chwefror 2017 i'r argymhelliad, isod:</p> <p>"We always inform the National Library of their budget on the day on which the Welsh Government's Draft Budget is published. This is subject to confirmation in the Final Budget. Budgets since 2015-16 have been developed against the backdrop of unprecedented uncertainty. Our intention throughout summer 2016 was to publish a budget for a three-year horizon, which would have provided our partner organisations with greater certainty in planning for a longer budget period. However, the lack of clarity about the revenue resources available beyond 2017-18 meant this ambition was not possible. As a result, we were able to only lay a</p>

Argymhelliad	Cynnydd
	<p>one-year revenue budget, with capital budgets for four years.</p> <p>As we consider future Welsh Government budgets, we will continue to work with partners to provide the available indicative information to inform their forward financial planning. Our aim is always to provide a longer run of budgets whenever possible.”</p> <p>Nododd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 24 Hydref 2017, Grant Cymorth drafft y Llyfrgell ar gyfer 2018-19 a ffigwr arfaethedig ar gyfer 2019-20.</p>
<p>A9. Wrth weithredu ei strategaeth creu incwm, dylai'r Llyfrgell sicrhau bod ganddi ddull cyson o weithredu a monitro cynlluniau busnes adrannol sy'n cynnwys dadansoddiad cadarn o'r incwm a grëwyd a'r costau cysylltiedig.</p>	<p><b>Gweithredwyd</b></p> <p>Cymeradwyodd y Pwyllgor Cynllunio Ariannol gynllun gweithredu ar gyfer creu incwm ym mis Chwefror 2017.</p> <p>Mae adrannau yn mabwysiadu dull mwy cyson a threfnus ac maent yn ystyried incwm ochr yn ochr â'r costau a ysgwyddir wrth ei greu, a cheir targedau incwm adrannol clir ar gyfer 2017-18.</p> <p>Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol yn monitro gweithrediad y strategaeth creu incwm yn rheolaidd ar lefel gorfforaethol ac adrannol.</p>
<p>A10. Wrth ddatblygu ei Gynllun Strategol newydd i ddisodli 'Gwybodaeth i Bawb', dylai'r Bwrdd fabwysiadu cynllun busnes tair blynedd, i'w ddiweddarau'n flynyddol, sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• galluogi cynhyrchu'r Cynllun Gweithredu blynyddol yn fwy prydlon, a thrwy hynny caniatáu digon o ymgysylltiad gan y Bwrdd; a</li> <li>• sefydlu cyfres o brosiectau a chyllidebau a threfniadau llywodraethu cysylltiedig, a fydd, gyda'i gilydd, yn cyflawni ei Gynllun Strategol.</li> </ul>	<p><b>Gweithredwyd</b></p> <p>Mae'r Llyfrgell wedi cynhyrchu Cynllun Strategol newydd a Chynllun Gweithredu newydd, y ddau ar gyfer y cyfnod o bedair blynedd 2017-2021. Mae'r ddwy ddogfen yn gyson â'i gilydd ac mae eu cynnwys yn adlewyrchu ymgysylltiad mewnol ac allanol.</p> <p>Mae ychwanegiad blynyddol i'r Cynllun Gweithredu yn ymdrin â gofynion Llythyr Cyloch Gwaith Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae rhaglen waith pedair blynedd y Llyfrgell, wedi'i seilio ar gynlluniau gweithredu blynyddol manwl, gan ragdybio y bydd setliad ariannol sefydlog.</p> <p>Mae agweddau ar drefniadau cyllid cyfredol Llywodraeth Cymru yn cyfyngu ar allu'r Llyfrgell i gynllunio a rheoli ei darpariaeth gwasanaethau yn y tymor canolig (gweler Argymhelliad 8). Nid yw'r Llyfrgell, hyd yn hyn, wedi ailasesu ystod a graddfa'r gwasanaethau y mae'n eu darparu a'r safonau ansawdd y mae'n ceisio eu cyflawni mewn ymateb i'r gostyngiadau a fu o ran cyllid a staff.</p>



Argymhelliad	Cynnydd
	<p>Nid yw cynllunio strategol y Llyfrgell wedi ymdrin yn glir â'r cwestiynau anodd ynghylch pa wasanaethau craidd y gallai fod angen iddi eu lleihau neu eu dirwyn i ben yn y dyfodol os yw lefelau'r Cymorth Grant yn gostwng. Mae'r dull o fod â Chynllun Gweithredu pedair blynedd sy'n nodi'r cynnyrch a'r canlyniadau y mae'r Llyfrgell yn bwriadu eu cyflawni erbyn 2021 yn rhoi cyfle i'r Llyfrgell nodi canlyniadau tymor canolig unrhyw benderfyniadau anodd y mae angen iddi eu gwneud mewn ymateb i newidiadau nas rhagwelwyd yn ei hamgylchedd allanol.</p>
<p>A11. Wrth lunio ei Strategaeth Datblygu Gweithlu, gweithredu dull dau gam o gynllunio gweithlu drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• asesu'r trefniadau presennol ar gyfer y gweithlu er mwyn hysbysu adolygiad strategol o swyddogaethau'r Llyfrgell a darpariaeth yn y dyfodol; a</li> <li>• phan fo'r cyfeiriad strategol yn glir, datblygu 'Strategaeth Pobl' sy'n adlewyrchu'r cynllun corfforaethol ac sy'n cynnwys yr elfennau cynllunio gweithlu, cynllunio dilyniant, a rheoli talent.</li> </ul>	<p><b>Yn parhau</b></p> <p>Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith sy'n ofynnol ar gyfer yr argymhelliad hwn o'n blaenau, ac mae llawer o broblemau'r gorffennol yn parhau o ran recriwtio, cadw ac erydu dilydol y sylfaen sgiliau.</p> <p>Mae ymrwymiad clir, wedi'i amseru, yn y Cynllun Strategol a'r Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. Mae Archwiliad Sgiliau wedi ei gynllunio ar gyfer mis Rhagfyr 2017 ac mae'r Llyfrgell wedi ymrwmo i gynhyrchu Strategaeth Pobl a Chynllun Datblygu Gweithlu yn ystod 2018.</p>
<p>A12. Wrth ddatblygu ei chynllun rheoli asedau, dylai'r Llyfrgell:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gyfochri'r cynllun â'r cynllunio strategol tymor canolig, gan roi ystyriaeth i'r weledigaeth ar y cyd ar gyfer math a nifer y gwasanaethau y bydd y Llyfrgell yn eu cynnig o'i safle yn Aberystwyth;</li> <li>• asesu cyflwr cyfredol asedau ei hystad, gan nodi pa mor dda y maent yn diwallu anghenion y Llyfrgell, a chostau'r camau y mae angen eu cymryd i'w gwella i'r safonau gofynnol er mwyn cyflawni Cynllun Strategol y Llyfrgell;</li> </ul>	<p><b>Yn parhau</b></p> <p>Ers cyhoeddi'r adroddiad mae Llywodraeth Cymru wedi darparu gwerth £7.75 miliwn o gyllid cyfalaf i gyflawni rhaglen gyfalaf fawr yn ystod y cyfnod 2017-2020.</p> <p>Mae'r Llyfrgell yn blaenoriaethu'r modd o ddefnyddio'r cyllid hwn yn ofalus i fynd i'r afael â risgiau iechyd a diogelwch sylweddol a phroblemau storio. Mae Bwrdd Rhaglen wedi ei sefydlu i gyflawni'r rhaglen gyfalaf hon. Mae'r Llyfrgell hefyd yn ymateb yn dda i'r her o letya archif y BBC.</p> <p>Wrth edrych ar y tymor canolig, roedd Cynllun Strategol a Chynllun Gweithredu y Llyfrgell yn nodi ei hymrwymiad i ddatblygu ei chynlluniau rheoli asedau hirdymor. Caiff Panel ystadau ei sefydlu yn fuan a fydd â phwyslais strategol a bydd yn ystyried gofynion y Llyfrgell yn y dyfodol o ran yr ystad.</p>

Argymhelliad	Cynnydd
<ul style="list-style-type: none"> <li>• sefydlu llinell sylfaen realistig ar gyfer costau cynnal a chadw rheolaidd;</li> <li>• blaenoriaethu'r asedau y mae angen sylw arnynt, gan ddangos sut y bydd y gwelliannau sydd wedi eu cynllunio yn cyfrannu at gyflawni amcanion strategol y Llyfrgell a'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â gwneud y gwaith; a</li> <li>• gweithio gyda Llywodraeth Cymru i nodi'r ffynonellau cyllid y mae eu hangen i ddatblygu a chynnal yr asedau.</li> </ul>	

